PAPUR BRO BANGOR A'R FELINHELI

# GORIAD

RHIF 408 • MAI 2021 • 50c

# PENBLWYDD HAPUS I'R PIER





**Ar y 14eg o Fai bydd Pier Bangor, sef un o atyniadau enwocaf y ddinas, yn dathlu ei ben-blwydd yn 125 oed. Am fwy o hanes, gweler erthygl ar dudalen 8.**

# GORIAD

Papur Bro Bangor a'r Felinheli
MANYLION CYSWLLT

**Golygyddion y Mis:** Glyn a Marc Lloyd Jones
**Golygyddion y rhifyn nesa:** Peredur Lynch a Bryn Tomos

**Y rhifyn nesa:** Deunydd mis Mehefin erbyn dydd Mercher 26ain o Fai i: **papurbrogoriad@yahoo.co.uk**

**SWYDDOGION**

**LLYWYDD**
Gari Wyn Jones, Ty'n Llwyn, Pentir, Bangor LL57 4DY
**YSGRIFENNYDD**
Howard Huws, 26 Penyffridd, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LZ (351503)
**TRYSORYDD**
Elan Parry, 9 Blaen y Wawr, Bangor LL57 4TR (521775)
**HYSBYSEBION**
Linda Jones, 15 Ffordd Belmont, Bangor LL57 2LL (364390)
**DIGWYDDIADUR**
Ann Corkett, 5 Heol Belmont, Bangor LL57 2HS (371987)
**DOSBARTHU**
Gwyn Jones, 28 Trefonwys, Bangor LL57 2HU (353652)
**DOSBARTHU I'R SIOPAU**
Enyd Roberts, 27 Y Rhos, Penrhosgarnedd LL57 2LT (370377)
**DOSBARTHU DRWY'R POST**
William H Owen, 14 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor LL57 2LE (364008)

***Gwahoddir golygyddion y mis, gohebwyr a cholofnwyr i'r papur. Cysylltwch â Menna Baines, Bangor 364522 neu drwy anfon ati ar ebost Goriad – mennabaines1@gmail.com***

CYHOEDDIR GORIAD GAN BWYLLGOR GORIAD GYDA CHYDWEITHREDIAD LLU O WIRFODDOLWYR

**Mae'r papur yn cael ei ddosbarthu mewn gwahanol ardaloedd ond gellir cael copïau hefyd yn y siopau canlynol:**
LONDIS Y FELINHELI
POST, PENRHOSGARNEDD
SIOP YSBYTY GWYNEDD
SIOP TAXI CHUBBS, BANGOR
KWIKS, STRYD FAWR, BANGOR
LATE SHOP, BANGOR UCHAF
AWEN MENAI, PORTHAETHWY
RICHARDS, Y MAES, CAERNARFON
SIOP GAREJ BERAN, DEINIOLEN


## HYSBYSEBU YN Y GORIAD

### COSTAU HYSBYSEBU ACHLYSUROL

| | | |
|---|---|---|
| 1/16 tudalen | 36mm x 100mm | £12 |
| 1/8 | 75mm x 100mm | £18 |
| 1/4 | 153mm x 100mm | £36 |
| 1/2 | 153mm x 205 mm | £72 |

### COSTAU HYSBYSEBU AM FLWYDDYN (10 MIS)

| | | |
|---|---|---|
| 1/16 tudalen | 36mm x 100mm | £60 |
| 1/8 | 75mm x 100mm | £108 |
| 1/4 | 153mm x 100mm | £216 |
| 1/2 | 153mm x 205 mm | £420 |

**CYFEIRIAD E-BOST HYSBYSEBION: goriad.hysbys@yahoo.co.uk**


Cysodir Goriad gan: **Deiniol Jones**
01248 354068/07979 577924
gdeiniol@hotmail.com
Argraffu: **Y Lolfa**, Talybont, Aberystwyth SY24 5HE
01970 832304

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


# llythyrau

Annwyl Olygydd,
Tybed oes rhai o'ch darllenwyr awydd sialens newydd neu'n chwilio am ychydig o waith ac eisiau gweithio fel tiwtor Cymraeg? Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisiau casglu cronfa o enwau pobl fyddai â diddordeb gweithio fel tiwtor, gyda'r oriau gwaith yn gallu amrywio o ddwy awr i dros 20 awr yr wythnos.

Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur o wersi ar-lein i'r Ganolfan, ac mae 'na alw parhaus am diwtoriaid i ddysgu'r miloedd o oedolion sy'n cofrestru ar gyrsiau bob blwyddyn.

'Dyn ni'n chwilio am bobl ym mhob rhan o Gymru i ymuno gyda'r tîm o diwtoriaid gwych sydd eisoes yn gweithio gyda ni. Yn ddelfrydol, 'dyn ni'n chwilio am brofiad dysgu blaenorol, ond y nodweddion hollbwysig ydy brwdfrydedd ac ymroddiad at y Gymraeg.

Bydd y Ganolfan yn casglu enwau pobl sydd â diddordeb, i'w rhannu gyda'i darparwyr cyrsiau, fel y gallan nhw gysylltu'n uniongyrchol i drafod cyfleoedd gwaith posibl. Mae tiwtoriaid yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwyr.

Mae'r dysgwyr yn dysgu ar bum lefel wahanol – o gyrsiau Mynediad ar gyfer dechreuwyr, i gyrsiau Uwch a Hyfedredd ar gyfer y rheiny sy'n siaradwyr profiadol. Mae'r gwersi i gyd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd canran o'r dosbarthiadau yn dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb mewn lleoliadau ar draws Cymru pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

I gofrestru eich diddordeb, ewch i: https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/recriwtio-tiwtoriaid/
Diolch yn fawr a chofion gorau,
*Helen Prosser*
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Archesgob dros dro

Esgob Bangor, Andy John fydd yn arwain yr Eglwys yng Nghymru nes y bydd Archesgob newydd wedi ei benodi eleni. Penderfynodd yr Archesgob John Davies ymddeol y mis yma wedi pedair blynedd yn y swydd. Andy John yw'r esgob hynaf yng Nghymru. Canmolodd yr arweiniad a roddodd John Davies yn ystod ei gyfnod.

## Enillwyr Clwb 100 Ebrill

**Y brif wobr o £50 yn mynd i Denzil W. Jones, Dyma Fo, 16 Pentre Llandygai, Bangor.**
Saith gwobr arall o £25 yr un i'r canlynol: Helen Morris, 7 Min Menai, Bangor; Dewi a Carol Llewelyn, 3 Bodlondeb, Ffordd y Borth, Bangor; Alun Edwards, 15 Ffordd Ffriddoedd, Bangor; Emyr Vaughan Evans, Abermenai, Lon Ddewi, Caernarfon; R Medwyn Hughes, 4 Lon y Ffrwd, Bangor; Rhianwen Huws Roberts, Erw Wen, Bron y De, Bangor; ac Owen Gerallt Jones a Marian Wyn Jones, Derwen Deg, Ffordd Hwfa, Bangor.
*Mae Elan Parry, y Trysorydd, yn croesawu aelodau newydd i'r Clwb Cant. Cysylltwch â hi ar Bangor 521775.*

## Diolch

Diolch i Gari Wyn Jones am roi'r ffi am ei ddarlith i Gymdeithas Ddinesig Caernarfon, i'r Goriad.

## Deud eich deud

Rhywbeth yn eich poeni? Angen canmol? Lle i feirniadu? Cofiwch fod croeso i lythyrau bob amser yn y Goriad. Neu i ymateb i'r hyn sydd yn ein papur. Anfonwch i papurbrogoriad@yahoo.co.uk

# Elusen Tir Dewi

**Derbyniwyd cais gan Delyth Owen, sy'n gweithio i'r elusen uchod, i gynnwys yr erthygl ddilynol yn y rhifyn yma o'r Goriad. Mae Tir Dewi yn cynnig cefnogaeth gyfrinachol am ddim i ffermwyr sy'n wynebu cyfnod anodd a heriol yng Nghonwy, Ynys Môn a Gwynedd. Dyma'r hyn a ddaeth i law gan Delyth.**

Mae 'na lawer o ffermwyr a'u teuluoedd allan yna sy'n brwydro i ymdopi â'r pwysau a ddaw o redeg fferm. Nôl yn 2015, yn dilyn sgwrs rhwng y cyn Esgob Wyn a'r Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Ceredigion, mi ddaeth y ddau i'r ddealltwriaeth nad oedd cefnogaeth ar gael i ffermwyr. Felly sefydlodd Eileen, (sydd hefyd yn rhedeg fferm ddefaid a gwartheg gyda'i theulu) yr elusen, Tir Dewi. Dechreuodd fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i bob ffermwr yn y tair sir yng Ngorllewin Cymru. Fis Awst diwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i Ogledd Cymru ac mi roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy nghyflogi fel Cydlynydd Gwirfoddolwyr Gogledd Cymru ac yn ddiweddarach fel Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Hyd yn hyn, y mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi helpu dros 300 o deuluoedd ffermio gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau, heriau ac y mae'r nifer yn codi yn ddyddiol. Y mae Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim gyda'r dewis o drafod gyda rhywun yn Saesneg neu Gymraeg, 7 diwrnod yr wythnos o 7am tan 10pm. Yr ydym hefyd yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb.

Yr wyf wastad wedi bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth mewn un ffordd neu'r llall, ac y mae gennyf lawer o atgofion melys o helpu fy nhad gyda'r defaid. Gan gymryd diwrnod i ffwrdd o'r ysgol i godi'n gynnar ar foreau haf cynnes i fynd ag ŵyn i'r farchnad, heb orfod poeni am lenwi trwydded, tagio'r ŵyn na meddwl 'Ydy'r trelar yn ddigon glân?'. Dyddiau hapus di-staen. Y mae pethau wedi newid yn ofnadwy ers hynny; un rheol newydd ar ôl y llall, un cyfrifoldeb ychwanegol, un poen ychwanegol heb fawr o gymorth, dim arian ychwanegol a dim llawer o ddealltwriaeth, heb sôn am ddiolch.

Nid oeddwn wedi deall yn iawn faint o bwysau sydd ar ffermwyr, nes i mi orfod cymryd drosodd daliad fy nhad wedi ei farwolaeth. Yr oedd y cyfrifoldeb ariannol, gwaith papur, trin y tir a phrynu a gwerthu anifeiliaid i gyd yn newydd i mi. Heb sôn am y pwysau o orfod sicrhau bod y ffurflen BPS yn gywir. Yr oedd colli anifail ac yna gorfod talu rhywun i gael gwared ohono yn rhwystredig iawn. Ni ddeallais erioed sut y gallai rhywbeth mor syml â thorri gwair allu achosi i mi deimlo mor boenus, yn sicrhau bod yr amseru'n iawn cyn daw'r glaw. Buan iawn y sylweddolais fod hyn yn dod a llawer iawn o boen meddwl arnaf nad oeddwn yn ei ddisgwyl, yn ogystal â rhedeg tŷ, teulu a gweithio llawn amser.

Pum mlynedd yn ddiweddarach fe wnes y penderfyniad anodd i roi'r gorau i'r tir, ar ôl tair blynedd o ystyried a sawl noson ddigwsg yn pendroni beth i'w wneud a beth fyddai fy nhad yn ei feddwl. Yna fe aeth rhent y tir i fynnu ac fe wnaethpwyd y penderfyniad drosof. Diflannodd gofidiau'r blynyddoedd diweddar dros nos, ac fe gefais amser i alaru am fy nhad; amser nad yw llawer o ffermwyr yn ei gael. Nid oes y fath beth ag "annual", "sick" neu "compassionate leave" i'w gael i ffermwyr, mae'n rhaid iddyn nhw gario ymlaen. Ond oes rhaid? Neu gallech chi ofyn am help, help a allai esmwytho peth o'r boen, y baich neu'r pwysau, gan adael i chi gael amser i feddwl, blaenoriaethu a theimlo eich bod yn cael eich cynnal?

Bydd yr atgofion gyda fi am byth, a dwi'n teimlo'n freintiedig am hynny. Felly, diolch i chi Dad, a diolch i'w holl ffrindiau am gynnig helpu yn ystod y pum mlynedd hynny. Wrth edrych yn ôl, fe ddylwn fod wedi derbyn eu cynigion caredig, ond roeddwn i'n rhy falch.

Teimlais yn unig iawn yn ystod y pum mlynedd hynny ond hefyd yn lwcus iawn i gael gŵr cefnogol a fagwyd ar fferm ond heb ddiddordeb mewn ffermio, a allai ddeall, a gwrando heb fy marnu. Roeddwn yn ei chael hi'n hawdd siarad hefo fo.

Rwy'n gobeithio drwy rannu fy mhrofiad y bydd yn helpu rhywun allan yna sy'n cael bywyd yn anodd, am wahanol resymau i ddeall bod siarad wir yn help. Y mae tîm o wirfoddolwyr caredig, llawn empathi yn Tir Dewi yn barod i wrando a'ch cefnogi beth bynnag a rhannwch. Felly galwch 0800 121 47 22 neu fy ngalw i yn uniongyrchol ar 07483399937 am gymorth cyfrinachol am ddim.

Hefyd, os oes diddordeb gennych, yr wyf wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i ymgymryd â gwahanol roliau o fewn yr elusen, felly cysylltwch â mi i glywed mwy.

# Agor y Gist – Cist Gwynedd 2021/22

## GRANTIAU CYFALAF A REFENIW AR GAEL I GRWPIAU CYMUNEDOL A GWIRFODDOL GWYNEDD

**Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol Gwynedd yn cael eu hannog i ystyried gwneud cais am grantiau refeniw a chyfalaf fydd yn cefnogi amrywiol brosiectau fydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau'r sir.**

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau, Cist Gwynedd, yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 i annog cymunedau i wireddu'r amcanion hyn drwy gymryd rôl fwy rhagweithiol yn eu cymunedau.

Yn ogystal, mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig. Mae canran o'r Gronfa yn cael ei ddosbarthu i eisteddfodau lleol yng Ngwynedd, sef swm o £300, a dylid ymgeisio drwy anfon e-bost i Swyddog Cist Gwynedd: CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas sy'n arwain ar y maes Economi a Chymunedau ar Gyngor Gwynedd:

"Mae grantiau Cist Gwynedd yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n arwain at gryfhau cymunedau ledled y sir. Dyma gyfle i'n trigolion wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau eu hunain."

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cronfa Cefnogi Cymunedau yw 31 Mai 2021. Mae'r Gronfa ar agor i dderbyn ceisiadau o dan £1,000 dros e-bost yn unig. Mae ffurflen gais ar gael ar ein gwefan yma: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfacefnogicymunedau neu gallwch gysylltu gyda swyddfa Cist Gwynedd ar e-bost CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 679 153 (Dydd Mawrth – Dydd Iau).

Mae pecyn ymgeisio ar gyfer Cronfa'r Degwm ar gael yma: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfardegwm

LONDIS
Y FELINHELI
AR AGOR 7 DIWRNOD 8 y.b. - 8 y.n
* Trwydded Diodydd * Nwyddau
* Papurau Newydd * Ffrwythau a Llysiau
* Ticedi Loteri * Trwydded Cerbydau
* Treth Cyngor
* Bancio Banc Lloyds, TSB, Co-op, Girobanc
*Derbynnir*
*Switch - Delta a Solo*
*Ffôn:*
*01248 670201*
SWYDDFA POST OFFICE

# Llygadu'r bwlch a adawyd



Hen adeilad John Edwards ac yna Blakemore ar Ffordd Caernarfon wedi diflannu. Yn barod am y symudiad nesaf.

(Llun DronePics.Wales)

# Apêl Nyth

**Helo! Nia Hâf dwi. Dwi'n gweithio i Frân Wen, cwmni theatr sy'n cynnig cyfleon celfyddydol a chymdeithasol i bobl ifanc ledled Gogledd Orllewin Cymru (a thu hwnt!).**

**'Da ni ar hyn o bryd yn y broses o godi arian tuag at ein cartref newydd yng nghanol dinas Bangor. Bydd Nyth, sydd wedi ei leoli ar dir yr hen Eglwys Santes Fair, yn hwb cyffrous, yn cynnig profiadau a chyfleon i'n pobl ifanc a'n cymuned. Bydd Nyth yn galluogi Frân Wen i gyrraedd mwy o gymunedau, gweithio gyda mwy o artistiaid, a chyrraedd mwy o bobl ifanc.**

**Achos, nid cartref newydd i Frân Wen yn unig fydd Nyth! Mae pobl ifanc yn ganolog i'r cwmni, ac mae eu lleisiau nhw yn treiddio trwy bob elfen o'r gwaith - o'r gweithgareddau cymunedol, prosiectau amrywiol, a'r holl gynyrchiadau. Bydd Nyth yn ein galluogi i gario 'mlaen hefo'r gwaith yma o uno gwaith y gymuned, artistiaid, a phobl ifanc.**

## PUM MIL I'R NYTH

**Bydd Cyngor Dinas Bangor yn neilltuo £5,000 i gefnogi 'Y Nyth', y ganolfan gelfyddydol yn Eglwys y Santes Fair. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolydd cwmni y Frân Wen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid i ddweud sut bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi**

**Er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth o gynnig yr adnodd yma i'n cymunedau yn cael ei wireddu, mae angen i ni godi £30,000 er mwyn i Nyth cael ei orffen. Rydym yn dibynnu ar bobl sy'n awyddus i weld ein gweithgarwch yn ffynnu i'n helpu i gyrraedd ein targed. Mae ein drysau ni wastad yn agored, felly os 'da chi'n nabod person ifanc fasa'n licio bod yn rhan o deulu Frân Wen, gallai eich cyfraniad chi ein galluogi ni i'w cyrraedd nhw.**

**Os ydych yn awyddus i'n cefnogi, gallwch wneud hynny trwy fynd ar y we i www.franwen.com/Nyth30k, neu trwy ddanfon neges destun i 70085 gyda'r neges NYTH30K a swm eich cyfraniad (e.e. bydd neges yn dweud 'NYTH30K 10' yn cyfrannu £10), neu gallwch gyfrannu trwy ein ffonio ni ar 01248 715048.**




***Hywel Williams***

Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**SWYDDFA ETHOLAETH**
8 Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
01286 672076 ***neu***
70 Stryd Fawr, Bangor L57 1NR
01248 372948
williamshy@parliament.uk



***Siân Gwenllian***

Aelod o'r Senedd dros Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch â hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**SWYDDFA ETHOLAETH**
8 Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
01286 672076 ***neu***
70 Stryd Fawr, Bangor L57 1NR
01248 372948
sian.gwenllian@senedd.cymru

Am ddewis eang o lyfrau Cymraeg a Saesneg o Gymru a'r byd...



10 Stryd y Plas, Caernarfon
01286 674631
palasprint.com
eirian@palasprint.com

Palas PRINT

Ar y Stryd Fawr ac ar Lein

# Dwy flynedd yn Faer yn amser gwerth ei gael



John Wyn Williams, y cyntaf i fod yn Faer Bangor am ddwy flynedd

Daeth tymor John Wyn Williams fel Maer Bangor i ben 10 Mai wedi cyflawni dwy flynedd wrth y gwaith. Does neb arall wedi bod yn Faer y Ddinas am ddau dro yn olynol. Er iddi fod yn gyfnod anodd mae'r Cynghorydd John Wyn Williams yn credu fod dwy flynedd wedi caniatáu rhagor o amser i feddwl am weledigaeth newydd i'r ddinas.

Mae blwyddyn yn mynd heibio mor gyflym, meddai. Mae hi'n haf bron cyn dechrau ar y gwaith, yna mae'n Nadolig ymhen dim. Gyda'r amser ychwanegol mae'n teimlo iddo gael mwy o ddylanwad a cheisio ail osod pwrpas i Gyngor y Ddinas.

Gan fod gan y Cyngor Sir ugain o drefi dan eu gofal bu'n gyfle yn ddiweddar i Fangor arwain eu hunain ar rai pethau. Yn bennaf penodwyd y Cyfarwyddwr Dinesig Iwan Williams i ofalu am hynny a hyrwyddo prosiectau. Hwnna yw'r newid mwya' yn fy nghyfnod, meddai.

Cyfeiriodd hefyd at y flwyddyn o ddathlu fydd i nodi fod y pier yn 125 y mis hwn, gyda dathliadau bychain yn arwain at ddathliad mwy ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gor-wyres adeiladydd y pier yn y Brifysgol a bydd hi'n rhoi darlith am ei hen daid.

Mae materion gwyrdd yn bwysig iddo yn arbennig y llwybrau sydd ym Mangor a'r angen i wario mwy arnynt i wneud rhagor o ddefnydd ohonynt.

Fel pawb arall mae'n poeni am y Stryd Fawr a'r angen i feddwl yn wahanol amdani. Yn lle agor o 9-5 beth am 12-9 y nos i ddenu pobl iddi, gofynnodd. Byddai'n hoffi gweld gorchudd dros ran o'r stryd hefyd ar gyfer gweithgarwch gyda'r nos. Sonia hefyd am gael siopau arbenigol.

Mae syniad hefyd fod y Cyngor yn dechrau cwmni i brynu rhai adeiladau a'u newid ar gyfer gwahanol bwrpasau.

Y Cynghorydd Owen J Hurcum yw Maer newydd Bangor a Gwynant Roberts yn ddirprwy iddo.

# Am weithio i'r Urdd?

Mae yna lu o swyddi newydd cyffrous wedi ei hysbysebu gan yr Urdd ymhob rhan o Gymru yn amrywio o Swyddogion Datblygu Chwaraeon i Gydlynydd Cyflogadwyedd.

Dyma gyfleoedd amhrisiadwy i weithio gyda phobl ifanc a bod yn rhan o ddyfodol disglair ein mudiad ieuenctid cenedlaethol.

Edrychwch ar Hysbysfwrdd Swyddi gwefan Lleol.cymru am fwy o fanylion.

# Clod am ei safonau

Adran Anesthetig Ysbyty Gwynedd yw'r gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr am safon ei gwaith. Cafodd ei chydnabod gan Goleg Brenhinol yr Anesthetyddion am ddarparu'r ansawdd uchaf o ofal i'w chleifion. Dros gyfnod o ddwy flynedd bu raid i'r adran fodloni 145 safon i ennill y wobr.

Roedd disgwyl iddynt gyrraedd safonau uchel ym meysydd profiad cleifion, diogelwch cleifion ac arweinyddiaeth glinigol ymhlith eraill.

**SIAWNS AM GÊM? t.19**

# Stompio'r stryd

## HARRI CAMA MAWR

**Dyna'r fotio 'na drosodd am rai blynyddoedd. Hugh Glanrafon yn 'y mhasio i yn gofyn o'n i wedi bod yn rhoi 'y nghroes. Wedi gneud ers wsnosa, medda finna, drwy'r post; haws o lawar. Dydi petha wedi newid, medda fo. Welis i ddim hanas lecsiwn ar y stryd y tro yma. Cofio amsar pan oeddan nhw'n chwilio am fôt yma rownd y rîl a siarad mawr wrth y cloc. Ar y teli mae pob dim rwan, meddwn inna'. Ia, medda Hugh, nes 'dan ni wedi syrffedu clywed sut maen nhw am wario'r pres fydd ddim gynnyn nhw. Mae hi fel tasa'r rhyfel wedi stopio ers wsnos rwan.**

Fuon 'na ddim gymaint o bobol yn y stryd ers talwm. Cofiwch 'nes i ddim sefyll yn y ciw am Debenhams pan wnaeth hi ailagor, dim ond sefyll yn 'rochor mewn rhyfeddod. A deud yn ddistaw, maen 'na rai yn gw'bod o hyd lle mae'r Stryd Fawr. Mi adewis i'r rhesi hir fynd cyn mentro i mewn. Tipyn o 'jumble sale' oedd hi, dillad ar lawr yn ambell le. Ges i fargan. Belt am y nesa' peth i ddim. Er, dyn bresus ydw i. Ac mi fydd isio belt a bresus ar Fangor pan fydd drysa' Debenhams yn cau.

**Be' mae'r stryd isio, medda rhywun wrtha i, ydi deryn i nythu i dynnu sylw. Meddyliwch 'tasa'r gwalch tramor 'na wedi dewis nythu ar ben y cloc yn lle Pont Britannia. Mi fasa Elsa'r Eryr yn ddi-waith. Ew, mae hi wedi bod yn brysur efo'r craen mawr 'na. Ac ar ben hynny, twll mawr yn Stryd Fawr yng ngwaelod Lôn Bopty. Sut oedd pobol yn medru dwad i lawr o'r topia'? Roedd hi wedi canu arnyn nhw i feddwl am y fath beth. Oes oeddach chi isio disgrifiad o lanast, dyma fo i chi.**

Digwydd stompio o Lidl a sylwi o ben Farrar Rd ei bod hi wedi twllu yn y pendraw, er bod yr haul yn gry'. Nefi mae'r fflatia' ar dir yr hen glwb cymdeithasol i fyny yn yr entrychion yn rh'wla. Lwcus dwi ddim yn byw yn rhan ucha' Ffordd Farrar nac ar Ffordd Deiniol ne' mi fyddwn i'n bytheirio. Os oes gan Pontio fwgan, wel dyma i chi un gwaeth o beth mwdradd ar yr un ffordd.

**Y tywydd braf wedi codi awydd crwydro ac mi es i gyfeiriad mynwent Glanadda. Ro'n i wedi clywed fod yr eglwys ar werth eto ar ôl i brynwr dynnu'n ôl. Trueni am hynny. Tybad ai wedi gweld y coediach yn tyfu o'r tŵr oeddan nhw? Beryg y byddan nhw'n goed praff cyn y daw unrhyw Fran Wen heibio. Gweld camerau'r Salon yn y siop walltia. Camu heibio reit fain wnes i i osgoi Magi Nogi. Dwi hofn hi. Dach chi yn fy meio i?**

Ges i gwestiwn ar ôl y tro dwytha: be' oedd yr A, A ac L o't ti'n sôn amdano wrth gael petha'n rhatach. Aldi, Asda a Lidl siŵr iawn. Y cwestiwn nesa': pryd mae ecsodus Aldi i Ffordd Caernarfon am ddigwydd a beth fydd yn digwydd i'r hen siop? Un wag arall?!

# CAPEL Y FFYNNON

**GWASANAETHAU** Wrth i'r sefyllfa newid gyda'r brechlyn, a'r amodau yn gwella yn y wlad rydym yn parhau i fedru cyfarfod yn y capel ar fore Sul. Er ei bod yn chwithig na fedrwn ganu, eto mae cyfarfod wyneb yn wyneb yn fendith wedi'r holl fisoedd o wynebu ein gilydd ar sgrîn cyfrifiadur. Rydym yn ddiolchgar o gael grŵp i ganu rhai emynau i ni, ynghyd â'r emynau sydd wedi eu recordio o flaen llaw ac sy'n ymddangos ar y sgrîn fawr. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r rhai sy'n gofalu am yr ochr dechnegol, i sicrhau fod y gwasanaethau yn parhau ar y we ar gyfer y rhai na fedrant fynychu ar hyn o bryd. Mae ein gwasanaeth hwyrol a'r Cyfarfod Gweddi ganol wythnos yn parhau ar Zoom ar y funud. Gallwch wybod mwy am ein gwasanaethau drwy droi at ein tudalen ar y we www.capelyffynnon.org lle mae modd i chi archebu lle i ddod i'r gwasanaeth yn y capel.

**O'R EIDAL I IWERDDON** Rydym yn parhau i gefnogi Heledd Job yn ei gwaith gyda mudiad yr Undebau Cristnogol ar draws Ewrop. Ar Nos Fercher, Ebrill 21ain ymunodd yn ein Cyfarfod Gweddi i rannu am ei gwaith. Bellach bu yn yr Eidal ers bron i bedair blynedd. (Cyn hynny bu yn Slovakia am bum mlynedd.) Ond fis Mehefin bydd yn gadael yr Eidal, ac yn symud i gychwyn gwaith yn Iwerddon. Bydd yn parhau gyda'r gwaith o fentora gweithwyr ledled Ewrop, ond hefyd bydd yn arwain y gwaith o efengylu i fyfyrwyr tramor ym Mhrifysgolion y Weriniaeth. Bydd wedi ei lleoli yn Nulyn, ac felly bydd yn gyfleus iawn i ni yma ym Mangor i gadw cysylltiad â hi.

Rhannodd ei gweledigaeth am weld rhai o bob llwyth ac iaith yn dod i brofi gras Duw, a defnyddiodd enghreifftiau o'i gwaith o fyfyrwyr oedd wedi profi newid bywyd drwy waith y mudiad y mae'n rhan ohono. Yn y cyfamser, mae wedi hyfforddi rhai i'w dilyn gyda'r gwaith yn Nhurin, a bydd tîm o rai yn y lle yn parhau gyda'r gwaith o efengylu ymhlith myfyrwyr y ddinas.

Clywsom hefyd am y modd roedd y pandemig wedi effeithio ar y sefyllfa yn yr Eidal. Mae'n ymddangos eu bod yn llawer mwy caeth mewn rhai ffyrdd yno, gyda phawb yn gorfod bod i mewn yn eu cartrefi erbyn 9.00 y nos. Tydi'r trefniadau i frechu'r boblogaeth ddim cystal â'r wlad hon o dipyn, a bu'n anodd i'r eglwys drefnu ei gwaith yno fel yn y wlad hon.

Edrychwn ymlaen i groesawu Heledd adref dros yr haf, a threuliwyd amser yn gweddïo dros ei gwaith a'i threfniadau ar gyfer y dyfodol.

**GWEITHGAREDDAU ERAILL** Mae mwy o'n gweithgareddau yn paratoi i gyfarfod wyneb yn wyneb eto. Mae Cyffro, ein cyfarfod i blant ysgol cynradd, yn cyfarfod yn yr awyr agored bellach pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae ein brecwast misol i Ferched wedi trefnu mynd am dro gyda'i gilydd er mwyn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. Yr un modd mae'r brecwast dynion yn cyfarfod yn yr awyr agored os yw'r tywydd yn caniatáu.

**ADNODDAU AR Y WE** Mae gwasanaethau'r eglwys, ynghyd â Gair o'r Gell, sef myfyrdodau gan ein Gweinidog, ar gael ar sianel YouTube Capel y Ffynnon. Os hoffech ymuno yn un o'n cyfarfodydd, boed dros y we, neu ar fore Sul yn y capel, yna cysylltwch â'n gweinidog ar dafyddmj@gmail.com . Gellir cael mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.capelyffynnon.org, neu ein tudalen Facebook.

# STORIEL - AR LEIN

**Bellach gellir gweld arddangosfa Celf Agored 2020 Storiel yn ddigidol, sydd yn darparu profiad gwych o'r holl waith celf anhygoel a oedd yn cael ei arddangos.**

**Thema'r arddangosfa oedd 'Awyr Agored', a dderbyniodd ymateb rhagorol gan artistiaid talentog. Cyn y cyfnod clo gyntaf fis Mawrth diwethaf, dewiswyd 94 o eitemau o'r ceisiadau niferus i ymddangos yn yr arddangosfa.**

**Yn y fideo fe welwch waith celf gan Mark Albrow, 'Sunset Over the West Shore', print digidol y dyfarnwyd iddo wobr Dewis y Detholwr 2020.**

**Hefyd gwelwch ffotograffiaeth gan Pete Whitehead a gafodd ganmoliaeth uchel, a gweithiau gan Brenda Chaffer, Rene Evans, Judith Samuel, Joan West a Dorothy M Williams a gafodd ganmoliaeth hefyd.**

**Roedd Storiel wedi gallu croesawu ymwelwyr**




**am gyfnod yn yr hydref y llynedd, gan ganiatáu i bobl bleidleisio dros eu hoff ddarn ar gyfer gwobr Dewis y Bobl. Gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau, dyfarnwyd gwobr Dewis y Bobl i'r gwaith celf 3D gan Jenet Peers, 'They go out once a year and discuss mental health issues' sydd wedi'i greu o glai wedi'i danio a papier mâché.**

**Meddai Delyth Gwawr Williams, Swyddog Celfyddydau Gweledol, "Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yna fawr o gyfle i bobl weld yr arddangosfa yma yn Storiel. Ond nid oeddwn eisiau ei gweld yn mynd yn angof ac felly roedd hi'n bwysig ein bod yn creu cofnod parhaol.**

**"Felly fe aethom ati i recordio'r gwaith celf ar ffurf fideo - sy'n cynnig profiad byw ac emosiynol wrth i chi gael eich tywys yn rhithiol. Dyma'r arddangosfa gyntaf yn Storiel i gael ei chofnodi a'i rhannu yn y fath fodd."**

**Felly ewch i https://www.storiel.cymru/cymru/whats-on/celf-agored-storiel-2020/ i fynd ar daith rithiol o gwmpas yr arddangosfa hyfryd yma.**






# Cyfle olaf i gael hyfforddiant achrededig AM DDIM mewn sgiliau cynhyrchu cyfryngau a digidol

Mae'r cwrs Cynhyrchu Cyfryngau Uwch a arweinir gan Brifysgol Aberystwyth wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y pandemig. Mae gan fusnesau a sefydliadau gyfle i ennill a gwella sgiliau cyfryngau digidol eu gweithlu AM DDIM a chefnogi eu gweithwyr wrth iddynt weithio tuag at gymhwyster ôl-raddedig (Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma Ôl-raddedig neu Feistr MSc). Mehefin 2021 fydd y cyfle olaf i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant achrededig AM DDIM hwn.

Cyflwynir cwrs MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch Prifysgol Aberystwyth trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg ac yn ddwyieithog, ac fe'i cefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy Lywodraeth Cymru ac fe ddaw yn sgil cynllun amlddisgyblaethol unigryw rhwng adrannau Cyfrifiadureg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Mae'n cyfuno gwybodaeth ymarferol am raglennu cyfrifiadurol â chynhyrchu cyfryngau, a'r nod yw arfogi gweithwyr â'r sgiliau damcaniaethol a'r byd go iawn er mwyn gweithio gyda thechnolegau digidol a chyfryngau uwch.

Cynlluniwyd Cynhyrchu Cyfryngau Uwch gyda busnesau ac unigolion mewn golwg ac felly mae'n hyblyg, yn hygyrch trwy ddysgu o bell ar-lein abydd yn ategu at waith y gweithiwr ac ymrwymiadau eraill.Nod y cwrs hyfforddi achrededig lefel uchel hwn yw galluogi busnesau ac unigolion i ddod yn fwy cynhyrchiol, cynaliadwy ac effeithlon yn enwedig yn y byd digidol hwn sy'n newid yn barhaus.

Dywedodd Dafydd Rhys, Cyfarwyddwr Canolfan Celfyddydau Aberystwyth "Mae'r cwrs Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn gyfle gwych i'r rheini sydd eisiaugwella eu sgiliau yn y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru! Pa amser gwell i wella sgiliau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n ein hwynebu a sut i ddefnyddio'r cyfryngau a thechnolegau digidol sy'n newid yn ein tirwedd greadigol. Y newyddion da i gwmnïau yw bod yr hyfforddiant hwn yn rhad ac am ddim."

Mae cyfranogwyr yn astudio trwy raglen dysgu o bell â chymorth a does dim angen cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae pob modiwl yn para tua 14 wythnos ac yn cael eu cyflwyno mewn rhaglen dreigl gyda dyddiadau cychwyn blynyddol ym mis Chwefror, Mehefin a Hydref, gan roi cyfle i gyfranogwyr y cwrs ddewis pob modiwl yn ei dro. Mae pynciau'r modiwlau yn cynnwys: Rhywedd a Chynhyrchu Cyfryngau; Graffeg Gymhwysol; Sgiliau Cynhyrchu Cyfryngau Rhagarweiniol ac Uwch; Diwylliant Digidol a Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol

Dywedodd Meredudd Jones, Pennaeth yr Adran TG a Chydlynydd Cymhwysedd Digidol yn Ysgol Maes-y-Gwendraeth, Cefneithin "Mae astudio ar gyfer gradd Meistr yn rhywbeth rydw i wedi bod eisiau ei wneud ers gadael y Brifysgol. Dwi erioed wedi llwyddo i ddod o hyd i gwrs sy'n cyd-fynd â'r hyn rydw i eisiau dysgu yn ei gylch a hefyd yn fy helpu gyda fy ngwaith beunyddiol fel athro.  Pan welais yr unedau oedd ar gael o fewn Cynhyrchu Cyfryngau Uwch roeddwn yn eiddgar i ddechrau! Gallaf wneud popeth o gartref! Mae'r holl ddarlithoedd ar-lein yn ogystal â'r taflenni gwaith a'r tasgau ymarferol. Mae'r darlithwyr a'r tiwtorialau byw ar-lein a gynhelir unwaith yr wythnos yn help mawr i'ch paratoi ar gyfer yr aseiniadau."

Mae dull hyblyg y cwrs hefyd yn caniatáu i gyfranogwyr ddechrau astudio pa bynnag fodiwl sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt a chymryd cynifer neu gyn lleied o fodiwlau ag y dymunant, naill ai fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) neu i adeiladu tuag at ystod o gymwysterau ôl-raddedig (Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma Ôl-raddedig neu Feistr MSc).

Mae Siwan Dafydd, Pennaeth Cyfryngau Cymdeithasol Cwmni Cynhyrchu Telesgop yn gweld Cynhyrchu Cyfryngau Uwch fel y cyfle perffaith i ddatblygu ei sgiliau yn ei gwaith beunyddiol sy'n newid yn barhaus, "Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyfle i mi ddatblygu ymhellach y sgiliau sydd gen i eisoes a datblygu rhai newydd y mae angen i mi fod yn ymwybodol ohonynt yn y diwydiant hwn."

Cydnabyddir yn eang bod diffyg sylweddol yn y math hwn o hyfforddiant yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Diolch i gefnogaeth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, mae hyfforddiant yn cael ei gynnig AM DDIM ar hyn o bryd i fusnesau a gweithwyr cymwys sy'n cofrestru cyn Mehefin 2021. I wirio cymhwysedd ar-lein ewch i:https://amp.aber.ac.uk/cy/study/eligibility-and-fees/enrolment-eligibility/

Dywedodd Doug Neil, myfyriwr aeddfed o Abertawe sy'n gweithio i'r GIG "Mae dysgu o bell wedi caniatáu imi weithio gartref ar amser sy'n addas i mi. Mae rhyw 30 mlynedd wedi bod ers i mi weithio'n academaidd ddiwethaf ar lefel Meistr a byddwn yn annog unrhyw un sy'n chwilio am brofiad cyfryngau amrywiol a heriol i ystyried y rhaglen Feistr hon."

I gael mwy o wybodaeth am y rhaglen ewch i amp.aber.ac.uk neu cysylltwch ag aelod o'r tîm trwy e-bost: ccu-amp@aber.ac.uk


**Cyfle olaf i wella'ch sgiliau digidol** AM DDIM

**Mehefin 2021** fydd eich cyfle olaf i gael hyfforddiant achrededig mewn sgiliau cynhyrchu cyfryngau a digidol

- **Cyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg ac yn ddwyieithog**
- **Hyfforddiant o gysur eich cartref ar adeg sy'n addas i chi**
- **Mae pob modiwl yn para tua 14 wythnos a gallwch ddewis cynifer o fodiwlau ag y dymunwch chi**
- **Ewch i amp.aber.ac.uk NAWR i weld a ydych chi'n gymwys**

Am fwy o wybodaeth
**amp.aber.ac.uk**

**@CCUAMPAber**

Cynhyrchu Cyfryngau Uwch
Advanced Media Production

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# 125 o flynyddoedd y pier – cyfnodau da a drwg

Ar 14 Mai mae Pier Bangor yn dathlu ei ben-blwydd yn 125. Bydd dathliadau am gyfnod. Ond dyma beth o hanes y pier, rhannau wedi eu codi o wefan Ffrindiau Pier Garth Bangor.

**Yn Awst 1894 y rhoddwyd caniatâd i'w godi. Roedd Bil Pier Bangor yn achlysur i'w ddathlu yn y ddinas gyda gorymdaith o gloc y dref tuag at Fferi'r Garth a'r cygnor yn derbyn agoriad arian i giatiau'r fferi.**

**Gofynnwyd am dendrau i'w adeiladu a rhoddwyd y contract i Alfred Thorne o Westminster, a oedd wedi gweithio ar nifer o bierau yn y Deyrnas Unedig a thramor. Dechreuodd y gwaith yn hydref 1894 a chymerodd ddeunaw mis i'w gwblhau.**

**Cafodd ei agor yn ffurfiol gan yr Arglwydd Penrhyn ar Fai 14 1896 yn dilyn gorymdaith drwy'r ddinas a gyda dros 5,000 o bobl yn gwylio'r seremoni agoriadol. Roedd y pier yn 1,500 troedfedd o hyd a 24 troedfedd o led, ac ardal letach ar ben y pier**

**Ar ôl ei gwblhau, roedd y pier yn arbennig o lwyddiannus, gyda sawl stemar yn galw'n rheolaidd, a channoedd o filoedd o deithwyr yn defnyddio'r gwasanaeth yn y cyfnod hyd at 1914. Cynhelid adloniant ar y pier, gan gynnwys sioe pierrot, bandiau pres, sioeau amrywiaeth, a chystadlaethau nofio.**

**Rhwng 1896, pan gafodd y pier ei agor, a mis Mawrth 1914, dywedwyd fod dros 440,000 o bobl wedi talu i ddefnyddio'r gwasanaethau. Dwy geiniog oedd y tâl mynediad cyffredinol, gwerth tua 65 ceiniog heddiw, ond codai hyn i chwe cheiniog i achlysuron arbennig, tua £1.95 heddiw.**

**Bu trychineb ym mis Rhagfyr 1914 pan drawodd stemar masnach Christiana y pier yn ystod storm, gan greu twll 150 troedfedd drwy'i ganol. Bu 'n rhaid disgwyl hyd at 1922 iddo ddechrau cael ei drwsio a gwelwyd fod angen mwy o waith arno.**

**Yn anffodus, o ganol y 1920au ymlaen, nid oedd y pier mor boblogaidd, gan fod bysiau yn disodli'r fferiau, a chan fod y llongau yn mynd yn fwy mewn maint, a hyn yn gwneud Bangor yn anymarferol fel man glanio. Yn ogystal, gwelwyd lleihad yn yr adloniant oedd ar gael, ac erbyn y tridegau cynnar, roedd y pier yn gwneud colledion trwm. Gofynnwyd cwestiynau a oedd yn ddoeth cadw'r pier a'i wasanaethau mewn perchnogaeth gyhoeddus.**

**Oherwydd yr Ail Ryfel Byd, cafodd rhan o ddec y pier ei dynnu oddi yno er mwyn atal y gelyn rhag ei ddefnyddio. Ar ôl y rhyfel roedd y pier mewn cyflwr torcalonnus, a chafwyd galwadau iddo gael ei ddymchwel neu ei werthu. Yn ffodus iawn, llwyddwyd i osgoi hyn a gwnaeth y cyngor welliannau iddo, gydag anogaeth i gynnal dawnsiau ac yn y blaen. Ond er hynny roedd yn parhau i golli pres a'i gyflwr yn dirywio.**

**Yn 1971 bu'n rhaid ei gau oherwydd i arolwg yn y chwedegau ddangos nad oedd yn ddiogel. Cyngor Ardal Arfon oedd y perchennog ar y pryd a bu bron i bleidlais fynd o'i blaid i'w chwalu. Yn 1978 llwyddodd Cyngor Dinas Bangor i gael statws Gradd II iddo, a phrynwyd y pier am 1c. Rhoddwyd addewid i'w adfer, ac ar ôl hyn ni fu ymgais arall i'w ddymchwel. Amcanwyd bod angen £470,000 i'w adfer, swm na fedrai'r cyngor ei fforddio, felly dechreuwyd codi pres i'w adfer.**

**Ym mis Hydref 1982, dechreuwyd ar y gwaith. Roedd hyn yn dilyn cefnogaeth ariannol gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Asiantaeth Ddatblygu Cymru, Cronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol, a Chyngor Adeiladau Hanesyddol.**

**Sefydlwyd cynllun gan y Comisiwn Gwasanaethau Gweithlu, ac roedd hyn yn rhoi gwaith tymor byr i bobl ddi-waith lleol. Cododd y costau oherwydd tywydd drwg, a chasglwyd yr arian ychwanegol drwy gynllun noddi rhannau o'r pier am symiau rhwng £5 a £2,500. Daeth nawdd pellach i'r pafiliwn ar y pen ac i drwsio'r giatiau addurnol. Yn dilyn hyn, enillodd y pier Wobr Tywysog Cymru yn 1983 a gwobr cadwraeth Europa Nostra yn 1988. O'r diwedd, ym mis Mai 1988, ar ôl cost o £3 miliwn, agorwyd y pier gan Farcwis Ynys Môn.**

**Gwyddom fod gwaith pellach wedi ei wneud iddo yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Ond erbyn hyn mae'n bosib cerdded ar ei hyd. Mae peth gwaith i'w wneud eto.**




*Hen lun ar gerdyn post a stamp newydd arno yn 2014*

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd

CYFREITHWYR

123 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd 01248 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

*Swyddfeydd eraill:*

LLANGEFNI 01248 723106 • AMLWCH 01407 831777
BENLLECH 01248 852782 • CAERNARFON 01286 673616
PWLLHELI 01758 703000




Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

# Y GARTH

**YR HEN A ŴYR A'R IFANC A DYBIA? GO BRIN!**
Erbyn i chwi ddarllen hwn bydd etholiad y Senedd wedi esgor ar do newydd o aelodau i'n cynrychioli. Mae'r etholiad hwn wedi bod yn un hanesyddol gan mai dyma'r tro cyntaf i bobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i fwrw pleidlais. Roedd hi'n bleser gweld Cerys Goggins, Ffordd Garth Uchaf, disgybl yn Ysgol Tryfan, yn cael ei holi ar S4C gan Nia Cerys ac yn ymateb yn hyderus a huawdl. Roedd hi wedi meddwl yn ddwys am bwysigrwydd dysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth er mwyn iddynt ddeall materion pwysig y dydd fel sail i wneud penderfyniadau doeth.

**GWENNO** Yn rhifyn Mawrth GORIAD soniwyd am lwyddiant y gyfansoddwraig, Gwenno Morgan, Siliwen, yn cydweithio gydag artistiaid eraill, gan gynnwys Lewys Wyn a Mared, i greu caneuon newydd. Bellach mae Gwenno wedi rhyddhau mwy o'i chyfansoddiadau i'r piano ar label I Ka Ching, sy'n dangos fod ei gyrfa gerddorol yn mynd o nerth i nerth. Pleser pur oedd gwrando ar y darnau piano 'Ti' a 'Lloergan' ar raglen Aled Hughes Radio Cymru a diddorol oedd clywed Gwenno'n adrodd ei phrofiad o gyfansoddi yn ystod y 'clo mawr'. Cyfeiriodd yn arbennig at ddylanwad ei hathro piano, Iwan Llywelyn Jones, wrth iddi ddadlau ei bod yn bosibl i greu 'caneuon heb eiriau'. Llongyfarchiadau, Gwenno.



Clawr 'Y Talisman'

**PERLAU PRIN** Os ydych chi'n codi'r fore iawn ar y Sul byddwch yn gyfarwydd â rhaglen gerddorol Linda Griffiths ar Radio Cymru. Ganol Ebrill darlledodd caneuon o 1970 gan 'Y Talisman', grŵp o dri o fyfyrwyr Prifysgol Bangor, gan gynnwys y lleisydd Topsy Christie. Bellach yn byw yn America, roedd Topsy'n byw yn Lôn Meirion ar y pryd, yn ferch i'r diweddar Dr David Christie, meddyg teulu adnabyddus yn y ddinas, a Mrs Jean Christie. Aelodau eraill y grŵp oedd Glyn Hollywell a David Humphreys. Yn ôl y manylion ar glawr record 'Y Talisman', Topsy oedd yn gyfrifol am yr alawon a Glyn gyfansoddodd y geiriau a seiliwyd ar chwedl Cantre'r Gwaelod. David oedd yn canu'r mandolin ac roedd 'atsain y mandolin yn rhan hanfodol o gydbwysedd eu caneuon'. Os gwyddoch mwy am hanes y grŵp, anfonwch air at lindagriffiths@bbc.co.uk Mae rhaglen Linda i'w chlywed bob bore Sul ar Radio Cymru o 5:30am tan 7am ac ar gael wedyn ar BBC Sounds i wrando nôl.

**MERCHED Y WAWR, CANGEN BANGOR** Cawsom noson ddifyr unwaith eto gyda dwy o'n haelodau yn adrodd ychydig o hanes eu magwraeth a'u plentyndod. Euthum draw i Fynytho ym mhen draw Llŷn yn gyntaf yng nghwmni Valerie Ellis wrth iddi hel atgofion am ei dyddiau yn ysgol gynradd y Gron ac ysgol uwchradd Botwnnog. Gwaith blinderus iawn oedd gorfod cyfrif gyda'r abacws, meddai Valerie! Mae'n amlwg fod ei dawn gerddorol yn disgleirio yn yr ysgol uwchradd oherwydd roedd disgwyl iddi gyfeilio yn y gwasanaethau boreol o'r ail ddiwrnod ymlaen ac roedd hi hefyd yn cyfeilio yn y sioeau cerdd. Mae gan yr ysgol le arbennig yng nghalon Valerie: rhwng bod yn ddisgybl a hefyd yn athrawes yn yr ysgol, treuliodd 42 o flynyddoedd eithriadol o hapus yno. Yna cawsom hanes teulu Plas yn Ddôl, cartref Megan Tomos, ym mhentref Tre'r Ddôl ger Corwen, o'r 1930au hyd at y 1970au. Roedd y fferm yn rhan o stad yr Arglwydd Niwbwrch ac, fel y gallwch fentro, doedd y berthynas rhwng y tir feistr a'r tenantiaid ddim o hyd yn esmwyth. Roedd Plas yn Ddôl yn lle o bwys hanesyddol ac yn cael ei grybwyll yng ngweithiau Morys Jones o'r Ddôl, Sion Cain (1627) a Twm o'r Nant (1744). Mae Megan yn ddyledus iawn i'w thad, W H Jones, am gofnodi hanes y teulu a'r gymdeithas ar glawr mewn dau lyfr: 'Hogyn o Gwm Main' a 'Casglu Cwysi'. Diolch i Valerie a Megan am rannu eu profiadau difyr gyda ni.

**CLYCHAU'R GOG**
Rydym wedi cael cyfle i grwydro'r Roman Camp a mwynhau gweld clychau'r gog yn harddu'r coedlannau. Mae'n galondid gweld fod y blodau cynhenid Cymreig yn dal eu tir yn erbyn estroniaid Sbaen!



*Charlotte Williams, Ffordd Garth Uchaf, yn ei helfen*

## Am helpu?
Awydd helpu'r Goriad – yn cyfrannu, yn rhannu, yn gwerthu? Mae croeso bob amser i rai newydd. Cysylltwch drwy papurbrogoriad@yahoo.co.uk

## Eisiau ymuno â thim golygyddol y Goriad?
Mae'r *Goriad* yn chwilio am olygydd ar gyfer un o rifynnau'r flwyddyn er mwyn cwblhau'r tîm golygyddol brwd a diwyd sydd gennym yn barod. Mae'n waith difyr iawn ac fe ddysgwch lawer am yr ardal yn y broses!
**Am fwy o fanylion, anfonwch air at Menna Baines: mennabaines1@gmail.com**

**GORIAD**
Deunydd Mehefin erbyn dydd Mercher 26ain o Fai i:
**papurbrogoriad@yahoo.co.uk**

Awen Menai
17 Stryd Fawr, Porthaethwy, LL59 5EE 01248 715532
Llyfrau a llawer mwy, rhywbeth at ddant pawb!
Awen Menai
awenmenai@gmail.com
www.arystrydfawr.com

K. W. JONES
Peirianwyr Ceir
Central Garage, Y Felinheli
Ffôn: (01248) 670277
Tiwnio Bosch, Prawf M.O.T.
Gwerthir ceir ail-law hefyd, gwarant 12 mis

BANGOR TYRE SERVICE
FFORDD CAERNARFON, BANGOR
Ffôn: BANGOR 01248 361294
AGORED 7 DIWRNOD
Llun i Gwener: 8am - 6pm
Sadwrn: 8am - 5pm - Sul: 9am - 2pm
MOT * Teiars * Batris * Trwsio pynjars
Balansio olwynion yn gyfrifiadurol * Gosod am ddim
Newid oel a ffiltar * Barrau towio i'w gwerthu a'u gosod

# DEUDWCH I MI: Goriad yn holi a stilio




**Enw:**
Leisa Mererid

**Gwaith:**
Actores, hyfforddwraig Ioga ac awdures

**Ydi'r cyfnod clo wedi effeithio arnoch chi?**
Do yn bendant. Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol tu hwnt. Ma 'na gyfnodau lle dwi wedi bod yn teimlo'n isel, yn poeni, yn unig a bron a drysu yn trio jyglo popeth ond hefyd mae 'na gyfnodau lle dwi wedi wir fwynhau - cael cwmni'r plantos, peidio rhuthro, mwynhau a gwethfawrogi'r pethau bach mewn bywyd..... cân aderyn, teimlo'r haul ar fy wyneb....gwerthfawrogi byd natur a phrydferthwch fy milltir sgwâr.

**Dwi'n hoff iawn o fwyd môr ac afocados!**

**A oes amser i ddiddordebau?**
Chydig iawn ond dwi wrth fy modd yn cerdded, gwrando ar gerddoriaeth, ymarfer Ioga a myfyrio. Cyn y cyfnod clo ro'n i wrth fy modd yn teithio, dawnsio a mynd i gyngherddau.

**Fyddwch chi'n cadw'n heini?**
Byddaf. Mae cadw'n heini yn gwneud i mi deimlo'n well nid yn unig yn gorfforol ond yn feddyliol hefyd. Dwi'n hoff o gerdded, ymarfer Ioga ac mae sesiynau rhithiol Iona Lloyd Roberts wedi bod yn fendith!

**Ydych chi'n credu mewn bwyta'n iach?**
Yndw. Dwi'n teimlo gymaint yn fwy positif, yn 'ysgafnach' ac mae gen i fwy o egni ac wrth gwrs mae bwyta deiet iach a chytbwys yn holl bwysig i gadw'r corff a'r meddwl yn iach.

**Pa un yw eich hoff bryd?**
Dwi'n hoff iawn o fwyd môr ac afocados!

**Ffrwythau neu rywbeth melys i bwdin?**
Well gin i fwyd sawrus na melys - ar wahan i siocled! Darn (bach) o siocled tywyll ella!

**Dwi'n mwynhau cerddoriaeth ddawns ac mae rhaglen Annie Mack ar Radio 1 ar nos Wener yn codi fy ysbryd.**

**Pa ddiod yw'r orau gyda'r pryd?**
Dwi wrth fy modd gyda jin lleol or enw 'Afallon'. Mae'n fendigedig.

**A oes llyfr wedi apelio yn ddiweddar?**
Dwi newydd fod yn ail ddarllen barddoniaeth Rupi Kaur – 'Home Body' a 'The Sun and her Flowers' a dwi hefyd ar ganol darllen llyfr ffeithiol diddorol tu hwnt - 'Breath – The New Science of a Lost Art' gan James Nestor.

**A oes gennych hoff awdur?**
Rupi Kaur

**Ydych chi'n gwylio rhaglenni teledu ar y teledu neu gyfrifiadur?**
Mae'n dibynnu. Os oes yna 'gystadleuaeth' am y teledu – yna dwi'n mynd i fy llofft i wylio a gwrando ar fy nghyfrifiadur!

**Ydych chi'n newid o un sianel i'r llall yn gyson?**
Nacdw! Mi fasa hynny'n fy ngyrru o fy nghof!

**A oes hoff raglen deledu?**
Dwi newydd orffen gwylio cyfres ddrama wych o Ffrainc – Engrenages/Spiral a ffilm hyfryd 'A Life Ahead' (gyda Sophia Loren yn actio a'i mab Edoardo Ponti yn cyfarwyddo.) Dwi hefyd wrth fy modd yn gwylio rhaglenni David Attenborough.

**A oes hoff raglen radio?**
Dwi'n mwynhau cerddoriaeth ddawns ac mae rhaglen Annie Mack ar Radio 1 ar nos Wener yn codi fy ysbryd.

**Sut y byddwch yn ymlacio?**
Cerdded ar lan y môr, gwrando ar gerddoriaeth, darllen, gwylio dramau/rhaglenni teledu, ymarfer ioga a myfyrio.

**A yw gwyliau'n rhan bwysig o'r flwyddyn?**
Ydyn. Mae'n gyfle i dreulio amser gyda'r plant ac mae'n rhywbeth i edrych ymlaen ato!

**Ai dramor fydd y gwyliau arferol?**
Cyn cael plant – ia yn bendant. Ond ers imi gael plant – gwersylla yn Aberdaron 'da ni wedi bod yn wneud gyda un gwyliau dramor yn Majorca.


**A oes un wlad yn apelio yn fwy na'r llall?**
Yn y gorffenol dwi wedi teithio cryn dipyn – yn bennaf i Asia a Chanolbarth/De America. Ar hyn o bryd mae Gwlad yr Ia, Norwy a Sweden yn apelio.

**Beth yw eich barn am gefnogaeth sydd ar gael i gynnal busnesau?**
Dwi ddim yn ymwybodol iawn o'r gefnogaeth sydd ar gael. Fel unigolyn sy'n hunan-gyflogedig dwi wedi bod yn hynod lwcus o gael cefnogaeth sawl mudiad - Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd), Yr Amgueddfa Lechi, Y Mudiad Meithrin, Codi'r To ac Uned Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gwynedd. Dwi'n ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth!

**...gwethfawrogi'r pethau bach mewn bywyd.....cân aderyn, teimlo'r haul ar fy wyneb....**

**A oes awgrym sut i godi'n calonnau ar gyfnod mor ddyrys?**
Bod yn garedig gyda ni'n hunain ac i gymryd anadl lawn, ddofn!


## Chris Griffiths



Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

☎ 01248 713369 neu 07813 455653

## J. P. TURNER
Cyfarwyddwr Angladdau

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

GWASANAETH 24 AWR
BRYN HYFRYD, PENTIR, BANGOR
Ffôn 01248 352017 a 354959
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Y FELINHELI

**PROFEDIGAETH** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Yvonne, Heather, Michael a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth eu mam, Margaret Hughes, 4 Brynffynnon, yng Nghartref Cerrig yr Afon. Mam a nain falch a charedig, bu Margaret a'i diweddar ŵr, Meredith yn gymdogion ffeind ac roedd Margaret yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Mair a Sefydliad y Merched am flynyddoedd.

**PANAD A CHÂN** Mae Eve Goodman wedi ymgartrefu yn Y Felinheli ers rai blynyddoedd ond dim ond eleni cafodd y cyfle i gynnal prosiect yn y pentref. Panad a Chân oedd teitl y prosiect ond oherwydd y COVID, roedd angen addasu'r bwriad gwreiddiol o gyfarfod mewn grŵp neu ar Zoom. Yn hytrach, bu Eve yn cynnal ambell sgwrs rithiol neu yn trafod ar y ffôn gyda thua deg o drigolion lleol. Comisiynwyd y gwaith gan Opera Canolbarth Cymru trwy Gerddoriaeth Eich Milltir Sgwâr gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Dyma ddywedodd Eve am y prosiect:
"Fy ysbrydoliaeth yw traddodiad hynafol y bardd lleol, oedd â chysylltiad â'i gymuned a straeon pobl ei gymuned. Yn fy fersiwn i o hyn, roeddwn eisiau cysylltu ag aelodau hŷn fy nghymuned leol yn Y Felinheli, a allai wedi dioddef yn fwy na neb yn ystod y pandemig. Y bwriad oedd creu lle diogel, anffurfiol a chroesawgar iddynt gael sgwrs ac adrodd eu straeon. Yna, roeddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r bobl hyn i greu caneuon sy'n mynegi eu straeon. Mae'r caneuon wedi'u dylanwadu gan straeon a phrofiadau pobl leol, gan roi goleuni newydd ar hen hanesion -fel adlais o'r traddodiad gwerin hynafol o adrodd straeon. Dyma adeg pam fo angen yr hen arferion yn fwy nag erioed. Mae hwn yn brosiect sydd wedi'i wreiddio ymysg y bobl leol, eu bywydau a'u realiti. Fy nymuniad oedd helpu i leddfu rhywfaint ar yr unigrwydd a'r unigedd sydd wedi dod yn sgil y pandemig."

Mae'r prosiect wedi dod i ben erbyn hyn a chawn ragor o hanes yr unigolion fu'n cymryd rhan mis nesaf.

**EVE GOODMAN**



**Merch sy'n ysgrifennu o'r galon, gan gyfuno'r personol a'r byd ehangach. Ar ôl ei gradd mewn llenyddiaeth yng Nghaerdydd, gadawodd Eve y ddinas i fyw mewn cwt ar fferm yng Nghernyw, ble ysgrifennodd ei EP cyntaf, Low Sun. Yn ei chyfansoddiadau diweddaraf, mae Eve yn edrych ar thema galaru ac yn dygmod ag ail-godi oddi ar anialdir profedigaeth wedi colli ei thad. Yn erbyn y poen, mae Eve yn cynnig harmoni distaw llais sydd yn ail ddarganfod llawenydd. Os yn eistedd, gwrando ac yn aros, bydd goleuni newydd yn datgelu enaid, tir a chysylltiad agos i ystyr ddynoliaeth yn y byd trafferthus, ysbrydoledig sydd ohoni. Mae Eve yn rhyddhau EP newydd yng Ngwanwyn 2021 ac yn wrthi yn recordio albwm newydd yn yr awyr agored!**
**www.evegoodman.co.uk**
**www.facebook.com/evegoodmanmusic**
**https://www.instagram.com/evegoodmanmusic**

**CAPEL BETHANIA** Bydd oedfaon yn y capel yn ailgychwyn ar Fore Sul, 9fed o Fai. Gobeithir cyfarfod i gynnal sesiynau Clwb Capel a CIC hefyd, yn dilyn y rhai Zoom a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod clo.

H. O. DAVIES Cyf.
*Trefnwyr Angladdau*
4 STRYD FAWR, BANGOR
Capel Preifat
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: 362650
362218
SEIRI MAEN
Penrhyn Monumental Works
Arddangosle yn
4 STRYD FAWR, BANGOR




# Mari Emlyn

## Crawia!

Gyda'r cyfnodau clo diwethaf wedi ein cymell i ddod i adnabod ein cynefin yn well, mae sawl un wedi cydio mewn gwahanol gyfryngau celfyddydol i gofnodi neu ddehongli'r hyn maen nhw'n ei weld o'u cwmpas. Mae ambell un wedi dechrau arlunio neu ddatblygu sgiliau ffotograffiaeth. Dw i wedi creu lampshêds @ gola.cymru!

Er gwybod am grawia ar hyd lonydd cefn Y Felinheli, doeddwn i erioed wedi sbïo arnyn nhw'n iawn, dim ond eu gweld wrth basio. Mae 'na wahaniaeth rhwng edrych a gweld. A rŵan, dim ots lle dw i'n mynd, dw i'n gweld ac yn edrych ar y crawia. Yn aml iawn mae'r crawia mewn cysgodion neu'n fwy diddorol yn creu eu cysgodion eu hunain – yn mynnu gadael eu hôl.

Wrth gwrs mae'r crawia i'w gweld yn agos at yr ardaloedd chwarelyddol ond hefyd yn cyfuno diwydiant pwysig arall yn yr ardaloedd hyn. Dyma ateb yr amaethwr i greu ffiniau rhwng caeau; i warchod ei braidd rhag crwydro o'i gynefin.



O edrych ar y gair 'craw' mewn geiriadur ceir y diffiniad hwn: Craw – a piece of waste slate. Dyma'r darnau wast; y gweiniaid ymysg y cryfion. Mae yna apêl ryfedd i mi yn y ffaith i'r gweiniaid oroesi. Tybed nad oes yma ryw symboliaeth neu ddeuoliaeth bosib efo'r Gymraeg?

Mae'r slabiau llechi'n creu patrwm neu silwét hyfryd ac addas yn eu hamgylchfyd; yn adlais o'r hyn a fu; yn adrodd straeon y gorffennol. Mae rhai wedi disgrifio'r crawia fel creithiau. Ond gall craith neu yr amherffaith fod yn dlws a'r crawia hyn fu'n ysbrydoliaeth i fi a Ifan fynd ati i gyd-greu cynllun tecstil i'w osod ar gysgodlen lamp. Dyma ein teyrnged ni i'r crawia ac i'r sawl fu'n eu creu a'u gosod.

Cafwyd sawl drafft cyn cytuno ar yr un terfynol gan ddewis yn y pendraw y symlaf o'r cynlluniau. Roedden ni'n awyddus i beidio tynnu oddi ar symylrwydd ac urddas tawel y crawia. Gobeithio y bydd pobl yn licio'r cynllun gymaint â ni! Mae posib eu gweld ar ein siop ar-lein ar Etsy a dan ni am roi poster o'r cynllun am ddim efo'r hanner can archeb cyntaf am lampshêd crawia!

Mae'r crawia'n ddisyfyd; yn siapio'r tirlun; yn pwysleisio pwysigrwydd cynefin gan ein hatgoffa o'r hyn a fu. Bu ein cynefin yn allweddol i ni yn ystod y cyfnodau clo – yn rhoi'r rhyddid i ni fynegi ein hunain wrth i ni ymateb i'n hamgylchfyd, fel tae am y tro cyntaf.

Does yr un craw cweit yr un fath a'i gymydog. Maen nhw fel aelodau o gôr yn mynnu ein hatgoffa: Dan ni yma o hyd!

## PENRHOSGARNEDD

**MERCHED Y WAWR PENRHOSGARNEDD** Un arall o'r fideos a baratowyd gan y Mudiad yn ganolog a gawsom y mis hwn, ac un gwerth ei gael hefyd. Y Prifardd Mererid Hopwood oedd yn cynnal y noson a chawsom ddigon i gnoi cil drosto ganddi. Mewn un hanner awr, llwyddodd i gwmpasu beth yw iaith a hunaniaeth, a sut mae iaith rhywun bob amser yn fwy na throsi geiriau; cawsom hanes Cymdeithas y Cymod a'r gwasgaru mawr ar Fynydd Epynt, colli cartrefi er mwyn cael maes ymarfer i'r fyddin. Cawsom fyfyrdodau ar y Cyfnod Clo, oedd yn athronyddol ond yn obeithiol drwyddi draw. Ac yna darllenodd y gerdd "Mae..." Llinellau o gerddi a chaneuon cyfarwydd Cymraeg ond gyda phob llinell yn dechrau gyda MAE mewn priflythrennau. "MAE dail y coed, mae border bach........a'r cyfan wedi gweu at ei gilydd yn gelfydd iawn. Os ydych eisiau clywed y gerdd eto, mae'n ddigon hawdd cael gafael ar fideo a wnaed gan S4C ohoni (gwglwch Mererid Hopwood "Mae") Roedd yr aelodau i gyd wedi cael eu swyno gan sgwrs a chan gyflwyniad Mererid a dywedodd sawl un ar y diwedd, "gallwn wrando ar hwnna i gyd eto" - canmoliaeth yn wir.**

• Rhianwen sy'n dod ag ychydig o'r byd mawr tu allan i ni - gan ei bod yn aros gyda'i merch yn Llundain ar hyn o bryd. Ac ar Facebook, gwelwyd lluniau hyfryd o flodau roedd Rhianwen wedi'u gweu, ynghyd â llun ohoni'n mynd am dro a Chlogwyni Gwyn Dover yn gefnlen egsotig iddi.

• Ie, ein Nerys Roberts ni oedd awdur y gerdd "Brain" yn Goriad mis diwetha! Cerdd wreiddiol, bersonol a gonest am y Cyfnod Clo, ewch nôl i'w darllen eto os nad ydych wedi gwneud.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fai 19 pan fydd Cadi Iolen o'r Amgueddfa Lechi yn dod i siarad â ni. Ac yna, bydd yn bryd trafod ein cyfarfod ola am y tymor – a'r dyfodol! Ai dyma ddiwedd ein cyfarfodydd rhithwir? Amser a ddengys. Ond fel dyfynnodd Mererid Hopwood, Mae dyddiau blin yn dod i ben / Mae amser gwell yn dyfod.

**Gwireddwyd eich dymuniad! Ers ysgrifennu hwn, mae'r Rhanbarth wedi penderfynu dangos y fideo eto. Nos Lun 24 Mai am 7.30pm. Holwch Nerys am y linc!

Mae'r aelodau yn parhau i fod yn brysur a wyddoch chi ddim lle bydd rhywun yn ymddangos nesaf:

• Mae rhai o'r swyddogion wedi bod yn dilyn cwrs Technoleg y Mudiad, er mwyn bod yn fwy hyddysg gyda'r cyfrifiadur. All neb ddweud na ddaeth rhyw dda o'r cyfnod clo...!

• Aeth 6 o'r aelodau i gyfarfod cychwynnol sefydlu papur digidol BangorFelin360. Cynrychiolaeth deilwng iawn. Mwy am hyn yn y man.

## EITHINOG

**MARWOLAETH** Trist oedd clywed am farwolaeth Mair Roberts yn 101 oed yn y Drenewydd. Hi ar un adeg oedd Pennaeth yr Adran Saesneg yn Ysgol Friars ac yn byw yn Lon y Bryn. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu oll.

**LLONGYFARCHIADAU** Llongyfarchiadau mawr i Ela Vaughan, Lôn y Bryn, a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Unawd o sioe gerdd. Cynhaliwyd cystadlaethau Eisteddfod Rhithiol Marian Glas ar wefan Côr-ona. Y beirniad oedd Emyr Gibson.

**PRYSURDEB** Mae hi wedi prysuro'n arw yn Eithinog yn yr wythnosau diwethaf gyda'r plant i gyd a'r athrawon yn dychwelyd i'r ysgolion.

# Dawnswraig arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Siriol Hughes sydd wedi cael llwyddiant mawr yn y gystadleuaeth ddawns genedlaethol "Uk Dance Class Championships". Bu Siriol yn llwyddiannus mewn tri ffeinal, gan ennill y categori tap, derbyn yr 2il safle mewn 'commercial', ac yna safle 4ydd yn y categori 'lyrical'. Bu cannoedd o gystadleuwyr ar hyd yr holl gategorïau, a llwyddodd Siriol i ennill gwobr "Outstanding Competitor" ar ddiwedd y gystadleuaeth. Da iawn ti!



# Rhodd werthfawr

Rhoddodd Dafydd Tecwyn Ellis, 18 Bryn Adda, uned rhif 70 o waed yn ystod mis Ebrill. Mae'n rhoddwr gwaed cyson ers Medi 1998 a'r rhodd ddiweddaraf yn gwneud cyfanswm o fwy na 55 peint o waed. Derbyniodd lythyr o fewn y flwyddyn ddiwethaf yn cadarnhau iddo helpu i achub dros gant o fywydau. Mae'n hybu unrhyw un sy'n gallu rhoi gwaed i wneud hynny. Er gwaethaf holl ddatblygiadau meddygol rhyfeddol ein hoes, nid oes dim wedi ei greu gan ddynoliaeth sy'n cyferbynnu i waed dynol. Ymlaen at y cant Dafydd!

# Marw trefnydd angladd

Cydymdeimlwn â theulu Dewi Lloyd Davies, y trefnwr angladdau gyda H O Davies, a fu farw'n sydyn y mis diwethaf. Roedd yn 51 oed ac yn byw yn Lôn y Glyder. Cynhaliwyd ei gynhebrwng yn y fynwent newydd, Bangor ddydd Gwener, 30 Ebrill. Roedd casgliad er cof amdano tuag at Calon Heart Diffibrilwyr Cymru.

**Ms E S Williams BSc (Hons)**
*MCOptom • Prof Cert Glauc*
**Mrs M W Williams BSc (Hons)**
*FBCO*
**Optegwyr Offthalmig**



**GOFAL LLYGAD I'R TEULU OLL**
310 STRYD FAWR, BANGOR, LL57 1UL Rhif ffôn: 01248 354949



# Gwasanaeth Post Bangor Uchaf




Mae fan goch y post – Swyddfa'r Post Symudol ar gael ym Maes Parcio Morrisons, Bangor Uchaf ar dri pnawn bob wythnos:

Llun
16.00-16.45
Mawrth
16.00-16.45
Iau
16.15-17.00

- Arian parod
- Post
- Talu biliau

Cadwch lygad am y fan goch (a'r gyrrwr – Vincent!).

## EGLWYS EMAUS

**OEDFA SUL Y PASG** Ar fore braf o wanwyn, daeth cyfle i ddathlu'r Pasg mewn oedfa hyfryd yn y capel a dros Zoom. Trefnwyd oedfa bwrpasol iawn gan ein gweinidog, Casi Jones, i ddathlu'r Pasg ac i dderbyn Elain Edwards a Morgan Siôn yn gyflawn aelodau. Chwaraewyd detholiad ar yr organ gan Sian Arwel Davies, oedd yn cynnwys rhan o'r Corws Haleliwia allan o'r Meseia gan Handel a'r gân 'If I Can Help Somebody' gan Alma Androzzo (canwyd y gân hon am y tro cyntaf yn gyhoeddus gan dad Enid Griffiths). Darllenwyd yr emynau'n ddistaw i gyfeiliant y tonau a chafwyd dau ddarlleniad gyda myfyrdod yn dilyn. Gwahoddwyd Elain a Morgan i'r sêt fawr i ddatgan eu haddunedau cyn cyfranogi o'r cymun. Arweiniwyd at y cymun ar gân mewn dehongliad o eiriau pwrpasol y diweddar Jâms Nicholas ar Troyte's Chant. Drwy gynllunio gofalus, llwyddwyd i gadw pellter diogel drwy'r gwasanaeth. Diolch i Casi am wasanaeth cofiadwy iawn. Roedd hi'n braf cael bod yn bresennol.



*Elain Edwards a Morgan Siôn gyda'r gweinidog ar ôl eu derbyn yn gyflawn aelodau o Emaus*

**OES O WASANAETH** Llongyfarchiadau mawr i Bernard Jones, Penrhosgarnedd, am roi hanner can mlynedd o waith i'r Gwasanaeth Iechyd. Mae rhai miloedd o bobl wedi elwa ar ei ofal dros y blynyddoedd ac mae'r gofal hwnnw'n parhau. (Gweler mwy o'i hanes isod)

**GORIAD YN HOLI LEISA MERERID t. 10**

**RHYWBETH YN DIGWYDD?**
**Rhowch o yn y Digwyddiadur - t.16**

# Clôd am oes o waith da

**Am ei fod wedi cwblhau cyfnod maith yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd cafodd Bernard Jones o Benrhosgarnedd ei longyfarch a'i anrhegu gan ei gydweithwyr. Mae'n dal i weithio yn 73 oed yn yr Adran Llawdriniaethau yn Ysbyty Gwynedd a nodi ei gyfraniad am 50 mlynedd yr oedd y staff.**

Ymunodd Bernard Jones â'r gwasanaeth iechyd yn 1971 fel Technegydd Llawdriniaethau dan Hyfforddiant yn Ysbyty Môn ac Arfon (C & A) ym Mangor, cyn gadael yn 1977 i ymuno â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru fel Technegydd Ambiwlans.

"Wedi saith mlynedd gyda'r gwasanaeth ambiwlans, penderfynais fy mod eisiau dychwelyd i'r ysbyty a chefais fy mhenodi i rôl Cynorthwyydd Adran Llawdriniaethau yn Ysbyty Gwynedd pan agorodd yn 1984," meddai Bernard Jones.



*Bernard Jones yn Ysbyty Gwynedd*

"Mi wnes i fwynhau'r rôl yn fawr iawn yn syth ar ôl ymuno â'r tîm a rhoddodd y sicrwydd ariannol oedd arnaf ei angen i brynu fy nhŷ cyntaf, a dyna ble cwrddais â'm gwraig, Buddug hefyd.

Mae Bernard wedi cael canmoliaeth uchel gan ei gydweithwyr dros y blynyddoedd, sy'n ei weld fel rhan annatod o'r tîm wrth ei waith fel Ymarferydd Adran Llawdriniaethau (OPD).

Dywedodd yr Anaesthetydd Ymgynghorol, Dr Suman Mitra: "Rydw i wedi gweithio gyda Bernard am flynyddoedd lawer ac mae bob amser yn gwrtais a hwyliog gyda'r cleifion. Lles y claf sydd bob amser yn dod gyntaf ac mae'n cyfathrebu'n dda iawn â nhw i dawelu eu hofnau.

Dywedodd yr Uwch ODP, Petula Rees: "Mae Bernard wedi dysgu cymaint i mi fel ODP am flynyddoedd lawer. Mae'n hawdd dweud ym mha theatr mae o wedi bod yn gweithio gan ei fod yn gadael popeth mor daclus, wedi ei stocio'n llawn ac yn lân."

Yn 73 mlwydd oed, mae Bernard yn dal yn ymroddedig i barhau i weithio yn ei rôl cyn hired â phosibl ac mae'n ddiolchgar i'w gydweithwyr am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

"Mae'r rôl hon wedi rhoi cymaint o brofiad i mi, rydw i wedi gallu gweithio ochr yn ochr â llawfeddygon gwych ac wedi gweld achosion anhygoel o gleifion yn gwella pan oeddem yn credu nad oedd gobaith o gwbl.

"Mae'n fraint i mi fod wedi gweithio i'r GIG am 50 mlynedd ac rydw i'n ddiolchgar i'r Bwrdd Iechyd am fy nghadw ymlaen fel y gallwn gyrraedd y garreg filltir hon!" ychwanegodd Bernard.

Nododd cydweithwyr Bernard y garreg filltir drwy roi syrpreis iddo gyda chacen arbennig a thalebau o Ganolfan Arddio Fron Goch.


# Tudalen y Plant

Rydym ni yn lwcus iawn bod gennym ddwy bont enwog yn ein hardal - Pont Grog y Borth a Phont Britannia. Mae hanes y ddwy bont yn ddiddorol iawn.

Agorwyd Pont y Borth ar 30ain Ionawr, 1826 - ac mae'n cael ei chydnabod fel y bont grog gyfoes gyntaf yn y byd!



Ar y llaw arall, oeddech chi'n gwybod mai dim ond trenau oedd yn arfer croesi Pont Britannia tan 1978? Holwch eich rhieni a ydy nhw'n gwybod beth ddigwyddodd i'r bont rhyw hanner can mlynedd yn ôl.



Pan adeiladwyd y ffordd ar gyfer cerbydau ar y bont diflannodd bedwar creadur 'byw' o'r golwg. Dyma bennill gan 'Y Bardd Cocos" sy'n sôn amdanynt:

*Pedwar llew tew*
*Heb ddim blew*
*Dau 'rochr yma*
*A dau 'rochr drew*

Dydy'r llewod heb adael go iawn - dim ond wedi eu cuddio gan bo'r ffordd uwch eu pennau. Tybed os yw'n bosib i chi ddwyn perswâd ar rhywun i fynd a chi am dro i'w gweld?


**Pos**

Ceir pedwar prif fath gwahanol o bont. Sawl gwaith y gallwch chi ddarganfod 'trawst', 'cantilifer', 'bwa' a 'crog' yn y grid isod?


| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | r | o | g | b | b | w | a | t | c |
| t | a | t | r | a | w | s | t | s | a |
| r | t | n | b | l | a | b | a | w | b |
| a | s | b | t | c | w | b | w | a | b |
| w | w | w | w | i | s | g | o | r | c |
| s | a | a | c | b | l | c | r | t | c |
| t | r | c | r | o | g | i | w | b | r |
| b | t | w | o | a | w | b | f | f | o |
| c | r | o | g | b | w | a | e | e | g |
| c | a | n | t | i | l | i | f | e | r |

<u>Pontydd Konigsberg</u>

Er nad yw'r dref yn bodoli bellach gan ei bod wedi newid ei henw, mae Konigsberg yn enwog am ei phontydd. Ceisiwch gynllunio llwybr sy'n croesi <u>bob</u> pont <u>unwaith</u> yn unig.




Mae sawl pont drawiadol arall i'w chael yng Nghymru. A allwch ddatrys y groesair yma, lle bo'r atebion gyda chyswllt â pontydd yn yr atebion.



<u>Ar draws</u>

1. Tref gyda dwy bont sy'n efeilliaid i bontydd y Fenai
3. Pwy adeiladodd Pont y Borth?
6. Ffordd wahanol o groesi ar draws rhwystr
7. Dwy bont yn croesi o Gymru i Loegr
8. Tref gyfagos i Tollbont Pwll Penmaen
9. Dyma sy'n croesi Pont y Bermo

<u>I Lawr</u>

1. Math gwahanol o bont sydd i'w gweld yng Nghasnewydd
2. Peiriannydd Pont Britannia
4. Enw'r bont bwa enwog yn Llanrwst
5. Pont grog sy'n uno Môn gyda'r tir mawr

ATEBION AR DUDALEN 18

# YSGOL TRYFAN

**PENCAMPWRAIG Y GYMUNED-BROOKE GRAHAM**
Mae Brooke Graham sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 9 wedi ennill gwobr pencampwraig y gymuned gan yr archfarchnad Morrisons oherwydd ei gwaith anhygoel yn y gymuned. Yn ystod y cyfnod pandemig roedd Brooke wedi codi £175 i'r elusen GIG Awyr Las drwy werthu cacennau. Bu'n brysur iawn hefyd yn pobi dros 100 o gacennau i bensiynwyr lleol Maesgeirchen. Llwyddodd Brooke i wneud hyn er gwaethaf y ffaith ei bod wedi cael dwy driniaeth fawr ar ei chlun. Gwych iawn Brooke.

**PENCAMPWYR CYSTADLEUAETH Y DDADL FAWR**
Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion blwyddyn 10, sef Rhys, Ariel, Chloe, Lacey a Steffan ar ddod yn bencampwyr Gogledd Cymru yng nghystadleuaeth y ddadl fawr (The Great Debate) a drefnwyd gan yr RSPCA. Yn anffodus oherwydd rheolau cyfyngiadau COVID ni fydd y disgyblion yn gallu mynd i Gaerdydd ar gyfer y rownd derfynol.

**PLEIDLEISIO AM Y TRO CYNTAF** Bydd nifer o ddisgyblion yn cael pleidleisio am y tro cyntaf yn etholiad y Senedd ym mis Mai. Roedd dau o'n disgyblion wedi bod yn rhannu eu profiadau'n ddiweddar ar newyddion S4C ac ar fideo sydd yn annog pobl ifanc i bleidleisio. Da iawn Cerys a Tomos.

**DIOLCH YN FAWR I DAFYDD HARDY** Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Dafydd Hardy am gyflwyno gliniadur i un o ddisgyblion yr ysgol. Mae un o ffrindiau Dafydd, sef Stephen Brown, er cof am ei wraig yn codi arian i ddarparu cyfrifiaduron i gefnogi plant. Mae yna nifer o arweinwyr blaenllaw yn y diwydiant gwerthu tai yn cefnogi'r ymgyrch bwysig hon. Hyd yma casglwyd dros £60,000. Diolch yn fawr iawn Dafydd am y rhodd hael hwn i Jamie Hughes o flwyddyn 9. Bydd y gliniadur yn gwneud gwahaniaeth mawr i gefnogi Jamie allu gwneud ei waith ysgol. Diolch Dafydd!!













*Uchod chwith: Pencampwraig y Gymuned, Brooke Graham*
*Uchod canol: Llun: Disgyblion bl 10 a fu'n fuddugol yn Y Ddadl Fawr*
*Uchod dde: Dafydd Hardy yn cyflwyno'r gliniadur*
*Gwaelod chwith: Cerys yn cael ei holi*
*Chwith: Jamie yn derbyn y gliniadur*

EMYR DAVIES A'I GWMNI
(D. G. Edwards a V. Edwards)
Offer Trydan o bob math
am bris rhesymol
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
Y SIOP DRYDAN
327, Stryd Fawr, Bangor Ffôn: 362647

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
08081640123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Clynnog & Trefor
TREFOR, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5HP
01286 660208 Ffacs: 01286 660538

FFRAMIA
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
01286 870922
www.fframia.com Dilwyn Pritchard
FFRAMIA
UNED 4, PARC PADARN
LLANBERIS
GWYNEDD LL55 4TY
post@fframia.com Dros 25 mlynedd o brofiad
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

# digwyddiadur

digwyddiadurgoriad@yahoo.co.uk

CANOLFAN HANES UWCHGWYRFAI: gwelir ei rhaglen ar dudalen 'Calendar' ei gwefan https://uwchgwyrfai.cymru.
**Nos Wener, 14 Mai, 7pm :** Y Ddarlith Flynyddol: Y Prifardd Ieuan Wyn: J.R. Jones, Cenedlaetholwr. Lle i nifer cyfyngedig yn unig. Archebwch le ymlaen llaw trwy gysylltu â Jina ar canolfanuwchgwyrfai@gmail.com

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL MAI 10-16, 2021
Nid oes modd casglu o ddrws-i-ddrws nag ar y stryd. Er hynny mae sawl digwyddiad yn cael ei drefnu i gasglu arian, gan gynnwys:
**Nos Wener, 14 Mai, 7pm:** Cyngerdd rhithiol ar Zoom
**Sadwrn, 15 Mai 10am-12pm:** Stondinau Cacennau a Phlanhigion; Gardd Beibl y Gadeirlan
Os dymunwch gefnogi'r ymgyrch, ewch i'w dudalen Just Giving https://www.justgiving.com/fundraising/or15202
I ymuno â'r cyngerdd Zoom, cysylltwch â ag elerijones30@btinternet.com.

DARGANFOD HEN DAI CYMREIG: raglen o sgyrsiau Zoom yn Saesneg.
**Nos Fercher, 19 Mai:** Richard Cuthbertson, Cadeirydd DHDC: 'Hanes y bobl a fu'n byw ym Mhlas Penmynydd'.
Os hoffech ymuno (£15 - efallai llai, mor hwyr yn y tymor), cysylltwch (yn Saesneg) â zoehenderson123@btinternet.com neu trowch at wefan http://discoveringoldwelshhouses.co.uk


MERCHED Y WAWR, PENRHOSGARNEDD:
**Nos Fercher, 19 Mai, 7.30pm:** Edrych ar greiriau gyda Cadi Iolen, Curadur Amgueddfa Lechi Llanberis.
**Nos Fercher, 16 Mehefin, 7.30pm:** Brethyn Cartref: dod i adnabod ein gilydd. Holi rhai o'n haelodau. NEU, os bydd y sefyllfa'n gwella, gweithgaredd awyr agored.
I gael dolen Zoom ar gyfer cyfarfod, cysylltwch a Nerys (352796) neu nerys.roberts123@hotmail.co.uk

PONTIO (chwiliwch y wefan ar gyfer manylion y digwyddiad)
Clwb Darllen: **11 Mai, 7.30pm:** Rhiannon Marks yn sgwrsio â Mihangel Morgan am ei lyfr 60. Archebwch le am ddim
Dawnsio ar gyfer Parkinson's: **18, 25 Mai; 8, 15, 22 Mehefin, 10am.** Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru: Cyfres o weithdai ar-lein ar gyfer unigolion sy'n byw gyda Parkinson's yn datblygu hyder a chryfder, wrth leddfu rhai symptomau bob dydd. Archebwch le (£3.50 y sesiwn)
Caffi Babis: **4 Mehefin, 2 Gorffennaf, 6 Awst, 10am:** Sesiwn Zoom hamddenol i rieni a'u plant gydag Angharad Harrop a Siwan Llynor. Archebwch le am ddim.

PEINT A SGWRS: Grŵp Skype sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr sgwrsio â'i gilydd ac â Chymry Cymraeg. Mae'n agored i bawb **bob nos Fercher o 7 tan 8,** ac fel arfer bydd yn cynnwys gweithgaredd megis cwis. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â Dani Schlick trwy e-bost cwisdysgwyr@gmail.com a chewch ddolen i ymuno â'r grŵp.

**Anfonwch atom os bydd gennych CHITHAU ddigwyddiad i'w hysbysebu. Dyma gyfle i gyrraedd cefnogwyr y *Goriad* sy'n byw y tu allan i'r ardal neu sydd fel arfer yn gaeth i'r tŷ.**

## Pos@GarethFfowc



### POS CŴN

Wrth fynd am dro ar hyd rhan o Lwybr Arfordir Cymru ger Abergwyngregyn cwrddais â nifer o gerddwyr a'u cŵn yn mynd i'r cyfeiriad arall. Cadwais gyfri o nifer y pennau a nifer y coesau: cyfanswm o 27 pen a 72 coes.
Sawl ci welais i?

***Ateb ar dudalen 19***

# CYNGOR DINAS BANGOR

**DATBLYGIAD PENYFFRIDD**
Mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Dinas Bangor tynnwyd sylw at benderfyniad yr Arolygiaeth Gynllunio i wrthdroi penderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthwynebu datblygu 30 o dai ym Mhenyffridd. Roeddynt yn sylwi'n arbennig ar ei gasgliadau ynghylch addasrwydd Ffordd Penyffridd i ymdopi â'r traffig ychwanegol.

Teimlid fod un ymweliad canol bore yn ystod cyfnod clo Covid-19 yn gwbl annigonol. Roedd y Cyngor wedi gwneud sylwadau a oedd yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod cynllunio am y mynediad. Penderfynwyd i gefnogi pryderon y gymuned leol am benderfyniad yr Arolygiaeth ac ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru i gadarnhau cefnogaeth i'r penderfyniad gwreiddiol. Gofynnodd y Cynghorwyr Hainge a Fernely am gofnodi eu gwrthwynebiad i'r penderfyniad.

**ARIAN I'R PIER**
Cytunodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bangor i roi £10,000 i'r Cyfarwyddwr Dinesig i'w wario ar eitemau sy'n gysylltiedig â'r Pier, yn cynnwys arwyddion newydd, cynigion i greu incwm a materion cynnal a chadw.

**Y CYFARWYDDWR DINESIG I ADRODD YN ÔL AR GYNNYDD I'R PWYLLGOR**
Penderfynwyd y dylai'r Cyfarwyddwr Dinesig weld beth oedd y posibilrwydd o drosglwyddo eitemau, offer a seilwaith o'r Pier i'w storio yn Stadiwm Nantporth.
Cytunwyd i hefyd i brynu goleuadau newydd i'r Pier. Dywedwyd y byddai prynu'r goleuadau yn fuddsoddiad da ac yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio'r Pier fel canolbwynt i nodi dyddiadau a digwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn.

**BWRDD GWYBODAETH**
Cytunodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bangor fod y Bwrdd Gwybodaeth a gynigiwyd ar gyfer caeau Ashley Jones yn rhy ddrud i'w ystyried ar hyn o bryd, ac y dylid ystyried a oedd cyfle am nawdd. Awgrymodd y Cynghorydd John Wyn Jones holi'r Trinity Foundation am hyn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai ymholiadau a cheisiadau gan y cyhoedd ynghylch meinciau a phlaciau er cof gael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

Penderfynwyd i brynu plac i nodi 125 mlwyddiant y Pier ym Mai 2021, a chytunwyd hefyd i brynu plac ar gyfer y Coed Sakura yng Nghaeau Ashley Jones. Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi cynnig y Cyfeillion y Pier am nwyddau i'r Pier, a defnyddio rhywfaint o gyllideb 2021/2022 i wneud hynny. Soniwyd am y cynnig wrth fynedfa'r Pier - 'Bwydo Bwystfil / Anghenfil Menai' (Feed the Menai Monster). Awgrymodd y Pwyllgor y gallai hyn fod yn brosiect ar y cyd â'r Cyfeillion, ac y gellid cael ysgolion Bangor i gynllunio'r 'anghenfil' a'i enwi.

**GOLEUADAU NADOLIG**
Cytunodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor i neilltuo £5,000 ar gyfer goleuadau Nadolig newydd a gweithio mewn partneriaeth â Bangor yn Gyntaf ar y prosiect hwn. Soniwyd am ystyried goleuo'r Stryd Fawr, Bangor Uchaf ac ardaloedd eraill o bosibl. Gallai Pwyllgor Asedau a Gwyrddio'r Cyngor edrych ar y prosiect hwn yn fwy manwl. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried yn ogystal defnyddio'r goleuadau a'r goeden Nadolig presennol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid defnyddio'r goleuadau a'r goeden Nadolig sydd ganddynt yn barod, cyn belled ag y bo modd, gyda Pendref yn lleoliad posibl.

**TORRI GWAIR**
Bydd Cyfarwyddwr Dinesig Bangor yn derbyn £10,000 i'w wario ar dorri gwair o fewn ardal y cyngor. Mae hyn yn golygu mwy o drafodaethau gyda chontractwyr gyda'r pwyslais ar sicrhau'r cytundeb gorau posibl. Mae angen i unrhyw drefniant i dorri'r gwair gynnwys casglu'r gwair.

Cytunodd y Pwyllgor Cynllunio fod angen gweithredu ar frys ar y mater pwysig hwn cyn misoedd yr haf, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i lefydd chwarae Bangor. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o adael i'r gwair dyfu, mewn rhai mannau gwyrdd, gyda blodau gwyllt.

# Canolfannau Hamdden Gwynedd yn croesawu'r Gymuned yn ôl

**Ers y 4ydd o Fai, mae nifer o Ganolfannau Byw'n Iach yr ardal wedi ail-agor eu drysau i gwsmeriaid ymarfer yn ddiogel yn y gampfa neu nofio'n y pwll.**

Mae Byw'n Iach hefyd yn cynnig y sesiynau poblogaidd Nofio Teulu. Mae pob teulu yn cael defnydd eu hunain o ran o'r pwll ar gyfer sesiwn awr. Mi fydd sesiynau Nofio Am Ddim ar gyfer rhai 60+ hefyd yn ailgychwyn.

Mi fydd angen i bawb gyrraedd y pwll yn barod i nofio (siwt nofio o dan eich dillad arferol). Ond mi fydd hi'n bosib defnyddio Ystafell Newid ar y ffordd allan i sychu a newid. Mi all gwsmeriaid anabl bwcio gofod newid pwrpasol ar gyfer cyn ac ar ôl eu sesiwn nofio trwy ffonio'r ganolfan leol o flaen llaw.

Bydd gweithgareddau grŵp, a fydd yn cynnwys rhaglenni poblogaidd o ddosbarthiadau ffitrwydd yn ogystal â gwersi nofio a gymnasteg i blant yn ail-gychwyn. Bydd hefyd modd i glybiau dychwelyd dan do a thu allan - trwy gadw at uchafswm o 15 o bobl mewn grŵp tu mewn a 30 tu allan.

Cysylltwch â'ch canolfan leol am fanylion aelodaeth.

Bydd Tîm NERS (Rhaglen Cyfeirio i Ymarfer) ar gael i gefnogi rhai sydd â chyflyrau iechyd penodol. Cysylltwch â'ch meddyg / nyrs gymunedol i weld os yw'n addas i chi.

Meddai Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach: “Mae hi wedi bod yn gyfnod hir ers i'r cyfleusterau fod ar gael oherwydd y rheoliadau i reoli Covid-19 ond rydym yn falch iawn o fod yn gallu ail-agor Canolfannau Byw'n Iach ac i groesawu pobl yn ôl.

“Rydym yn ymwybod y bydd sawl un yn teimlo ychydig yn bryderus am ddychwelyd. Mae hynny wrth gwrs yn ddealladwy ond mae ymchwil yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf wedi profi fod canolfannau yn llefydd diogel gyda'r trefniadau Covid Diogel ychwanegol sydd yn cael eu gweithredu.

“Mae'r systemau yn cynnwys trefn pellhau gymdeithasol



clir iawn, trefniadau glanhau ychwanegol a chyson, lleihad sylweddol yn y nifer o bobl all fod yn yr adeilad ar unwaith, hyfforddiant Covid i bob aelod o staff a gwaith cynnal a chadw proffesiynau ac addasiadau i'n systemau awyru sydd yn golygu fod llif o awyr iach i mewn i bob rhan o'r adeilad i safonau'r diwydiant.

“Mae hi hefyd yn bwysig cofio fod ymchwil sylweddol wedi cadarnhau fod cyswllt clir iawn rhwng bod yn actif ac yn ffit a gallu unigolyn i wrthsefyll Covid-19 a sawl afiechyd arall. Trwy gadw'n heini mi all pob un ohonom ni warchod ein hiechyd a lleihau'r galw ar y Gwasanaeth Iechyd.”

Er mwyn cefnogi rhai sydd efallai'n teimlo eu bod angen ychydig gefnogaeth ychwanegol mae Byw'n Iach am gynnal sesiynau newydd sbon wythnosol “Actif am Oes” ar bob safle o'r 7fed o Fehefin, a fydd ymlaen tan wyliau'r haf yn rhad ac am ddim.

Yn ystod y sesiynau bydd yr ystafell ffitrwydd ar gael gyda goruchwyliaeth a niferoedd isel - tebyg i drefniant “amser tawel”. Os ydych chi wedi anghofio sut i ddefnyddio'r offer, bydd staff ar gael i roi anwythiad byr i'ch ail atgoffa. Bydd cyfle hefyd i gael taith tywys o gwmpas yr adeilad i weld y trefniadau newydd a siarad gydag aelod o staff. Bydd sesiynau blasu o amrywiaeth eang o weithgareddau fel rhan o'r rhaglen, megis Yoga, ‘Circuits' Ysgafn tu allan, teithiau cerdded er lles, sesiynau garddio a phethau newydd fel pêl-droed cerdded yn cael eu cynnal hefyd.

Bydd y staff Actif Am Oes yn holi barn am y math o weithgareddau hoffai bobl weld yn y ganolfan yn ystod y dydd yn y dyfodol. Mae'r sesiynau yma'n ddelfrydol ar gyfer trigolion hŷn - ond ar gael i rywun sy'n awyddus i gymryd y cam cyntaf gyda thipyn o gefnogaeth ychwanegol. Does dim rhaid bod yn aelod i fynychu'r sesiynau anffurfiol yma - croeso i bawb alw heibio! Bydd manylion y sesiynau hyn ar gael ar wefan Byw'n Iach yn nes at yr amser.


Mi fydd gwybodaeth am yr holl wasanaethau yma ar gael ar wefan www.bywniach.cymru ac ar dudalennau Byw'n Iach ar Facebook, Twitter ac Instagram, neu mae modd e-bostio ni ar cyswllt@bywniach.cymru neu ffonio eich canolfan leol (rhifau ar gael ar y wefan).

Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl yn fuan!



# CROESAIR

**Rhif 385**



Enw: ..................................................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................................

..........................................................................................................

**Noder:** Bydd bloc ar gyfer pob symbol. Felly bydd y llythrennau dd, ng, ll etc. yn cymryd dau floc. Anwybydder yr hirnod am y tro. **Cyflwynir tocyn llyfr yn rhodd am yr ateb cyflawn cyntaf a dynnir o het ar 26 Mai 2021. Atebion i Croesair Goriad, 4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2LY.**

**AR DRAWS:**
1. Gweithwyr tu hwnt i dâl yn wyneb Coronafirws (13)
8. Haeddiant da lle gweli di ôl tynged (10)
10. Tynnu ato neu ati (4)
11. Trympedau sy'n arwain at dwf ar bennau a thraed (6)
15. Lle ac egwyl i ymneilltuo (5)
19. Tawel allweddell Llŷr Williams (5)
20. Pentre ym Meirion, Ceredigion, Arfon, Brycheiniog a Chonwy (8)
22. Cyfeiriad gyferbyn â'r dwyreiniol (11)
23. Buddugol yn trechu methiant (12)

I LAWR:
2. Ynys sy'n raddfa gerddorol (4)
3. Niferoedd rhy drist yng nghyfnod yr haint (7)
4. Dod ar ôl rhagflaenydd (5)
5. Dal ati'n ddi-ildio (5)
6. Ever Given a barlysodd fasnach y cyfandiroedd (5)
7. Y proffwyd tywydd ysmala ar y trothwy heb un geiniog (5)
9. Tai dramâu gweigion y cyfnod clo (8)
12. Cnepyn sy'n troi'n ôl mewn plat (4)
13. Pennog (9)
14. Y llif o Hiraethog i Elwy (4,4)
16. Athrofaol (7)
17. Gweithdy'r darganfod gwyddonol (7)
18. Gwyliadwrus yn null Drakeford (7)
21. Diserch o fyr mewn ymateb (4)

**Atebion Mis Ebrill:**
AR DRAWS: 1. Hunanreolaeth 8. Etholiadau 10. Iolo 11. Lluman 15. Nacâd 19. Newid 20. Caerdydd 22. Cyfrifiadur 23. Poblogeiddio.
I LAWR: 2. Uned 3. Athrofa 4. Ralio 5. Oracl 6. Arafu 7. Hufen 9. Pinaclau 12. Llun 13. Morwyndod 14. Ffyddiog 16. Clercio 17. Deddfol 18. Addurno 21. Miri.

Cyhoeddir atebion Croesair Mis Mai ynghyd ag enw'r enillydd yn rhifyn Mis Mehefin. **Enillydd Croesair Mis Ebrill gydag ateb cyflawn oedd Anna Roberts, Penrhosgarnedd.** Daeth nifer o rai eraill i law, a chafwyd atebion cyflawn gan: Tecwyn Edwards, Newcastle upon Tyne; Elizabeth Evans, Penrhosgarnedd; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; H W Jones, Caeathro; John Wynn Jones, Penchwintan; W H Owen, Eithinog; E W Pritchard, Garndolbenmaen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Liz Roberts, Lôn y Meillion; T. a G. Roberts, Rhosmeirch.

***Dalier sylw: nodyn am gyfeiriadau***

*O hyn ymlaen, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), wrth gyhoeddi enwau enillwyr ac ymgeiswyr eraill sydd wedi anfon atebion cyflawn, byddwn yn cynnwys eu cyfeiriadau byr yn unig.*

# Marw Iris Price Jones

Bu farw Iris Price Jones, Siliwen yng Nghartref Glanrhos, Brynsiencyn 26 Ebrill yn 99 oed. Ganed hi yn Aberfan yn 1922. Ym 1945 priododd â Frank Price Jones o Ddinbych. Ym Mangor y buont yn byw gan fagu tri mab - Dafydd, Rhys ac Alun. Y Berllan, Siliwen oedd ei chartref am dros hanner can mlynedd, wedi symud yno ym 1959.

Roedd yn athrawes coginio yng Nghwfaint St Gerard o'r mil naw pumdegau tan iddi ymddeol oddi yno wedi bod yn dysgu yno'n hwy na neb, gan gynnwys y lleianod. Yn y 1960au ymddangosodd yn aml ar y rhaglen deledu Amser Tê TWW gyda Myfanwy Howell. Hi hefyd oedd Meic, yn y golofn 'Gwylio a Gwrando efo Meic' yn Y Cymro.

Cyhoeddwyd ei llyfr 'Celtic Cookery' gan Wasg Christopher Davies, Abertawe ym 1979. Fe'i penodwyd hi'n ynad heddwch ar Fainc Bangor yn y saithdegau gan ddiweddu'r yrfa honno fel Cadeirydd y Fainc ym 1997.

Roedd hi'n aelod o Eglwys Twrgwyn ac yna Berea Newydd wedi hynny. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Amlosgfa 5 Mai ond roedd ei dau fab, Rhys ac Alun wedi methu dod o America.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

## Ymuno â'n Clwb 100

Cofiwch am Glwb 100 Goriad. Cyfle i ennill os daw eich enw o'r het. Manylion sut i ymuno drwy gysylltu ag Elan Parry, 9 Blaen y Wawr, Bangor LL57 4TR

## Tudalen y Plant (Atebion)

**Pontydd Konigsberg**

Dipyn o dric mae'n ddrwg gen i - dydy hi ddim yn bosib croesi bob pont unwaith yn unig. Ymchwiliwch i'r stori - mae'r dref yn enwog go iawn!

**Croesair**

**Ar draws**


1. Conwy; 3. Telford; 6. Twnnel; 7. Hafren; 8. Dolgellau; 9. Trên

**I Lawr**

1. Cludo (Pont gludo); 2. Stephenson; 4. Pont Fawr; 5. Borth

**Math o bont**

Crog - 6
Bwa - 6
Cantilifer - 2
Trawst - 4



## CPD Y FELINHELI

# "Siawns am gêm?"

**Mae pethau yn altro. O Ddydd Llun, Ebrill 26ain, mae modd i 30 person gael cyfarfod yn yr awyr agored, yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru. Be mae hyn yn olygu ydi fod modd cael cyfarfod i ymarfer ac yn wir, i gael chwarae gêm.**

Bu chwaraewyr Felin yn ymarfer yn ystod y clo cyntaf, yn dilyn rwtîn gafodd ei yrru allan ar Whatsapp pob wythnos. Roedd y gynghrair wedi dod i stop "dros dro" a roedd angen bod yn barod pan fuasai'r tymor yn ail gychwyn. Nid oedd neb bryd hynny, dros flwyddyn yn ôl, yn disgwyl i'r pandemig barhau mwy na ryw gwpwl o wythnosau. Ond wrth gwrs, daeth popeth i ben ac efallai fod hynny yn beth reit dda i Felin. Cyhoeddwyd mai Felin oedd y pencampwyr gan mai Felin oedd ar y pryd ar frig y tabl yn ôl faint o bwyntiau oedd ganddynt wedi rhannu gan y nifer gemau a chwaraewyd.

Bu llacio ar y rheolau, ac roedd modd cael ymarfer fel criw, a bu'r hogiau wrthi yn galed yn paratoi at ymddangos yn y gynghrair newydd trydydd haen pyramid pêl-droed Cymru, sef "Ardal" Gogledd Cymru. Ond nid oedd sicrwydd pa bryd fuasai honno yn cychwyn. Codwyd rhywfaint ar y cyfyngiadau eto tua mis Tachwedd a llwyddwyd i gael chwarae dwy gêm gyfeillgar, cyn i bethau waethygu eto. Ac yn y diwedd bu rhaid i Gymdeithas Bêl-Droed Cymru gyhoeddi nad oedd y tymor am gychwyn o gwbl i neb heblaw am prif gynghrair Cymru (Caernarfon a rheini).

Mae ymarfer pob wythnos yn ddigon anodd a chaled, ond heb rywbeth i anelu tuag ato, fel gêm bêl-droed ar y penwythnos, roedd angen eithaf ymroddiad i gadw yn ffit a mynychu sesiynau ymarfer pob wythnos. Chwarae teg i'r hogiau, roedd pawb reit dda. Ond bu rhaid dod â'r ymarferiadau i ben oherwydd ton arall o'r haint. Da dweud fod rhan helaeth o'r sgwad wedi bod yn cadw yn heini ar liwt eu hunain. Hyn yn y gobaith o gael chwarae gêm bêl-droed cystadleuol unwaith eto.

Ac o'r diwedd, cyhoeddodd y Gymdeithas Bêl-Droed fod y gynghrair newydd am gychwyn ar ddydd Sadwrn olaf Gorffennaf. Newyddion da o lawenydd mawr i bawb wrth gwrs.

Sut fydd hi erbyn diwedd Gorffennaf? Mae hwnnw yn gwestiwn arall tydi. Fydd rhaid cael cyfnod cloi arall tybed, a gorfod gohirio cychwyn y lîg unwaith eto? Ac os bydd popeth yn iawn erbyn hynny, o dan ba amgylchiadau fydd y gemau yn cael eu chwarae tybed? Fydd y rheol "30 person" dal yna? O ystyried fod 22 chwaraewr a thri swyddog ar y cae, ynghyd âg eilyddion, rheolwyr, a phobl cymorth cyntaf, heb son am swyddogion a chefnogwyr, tydi'r "rheol 30" ddim yn ymarferol o gwbl. Siawns fydd ein llywodraeth newydd (efallai erbyn hynny) yn gweld hyn ac yn defnyddio chydig o synnwyr cyffredin.

Bwriad y clwb ydi cychwyn ymarfer ffurfiol ysgafn i ddechrau a threfnu gemau cyfeillgar. Efallai cwpwl o gemau mewnol o fewn y clwb yn gyntaf cyn mentro i chwarae clybiau eraill. Siawns fydd gêm yn erbyn Bangor 1876 cyn bo hir efallai? (Roedd un wedi ei drefnu mis Rhagfyr ddiwethaf cyn i'r cloi mawr ddifetha popeth). Local darbi ardal y "Goriad" ynte!

Rhaid edrych ymlaen at yr haf gan obeithio fod yr haint erchyll yma wedi ei drechu, neu ei gadw o dan reolaeth beth bynnag. Siawns fydd pawb wedi derbyn eu brechiadau erbyn hynny a chawn o'r diwedd weld rhywfaint o bêl-droed byw lleol unwaith eto.

## CPD DINAS BANGOR

# Edrych ymlaen am ddechrau'r tymor gyda rhai enwau lleol

Er bod y clwb wedi gwneud cais am drwydded i chwarae yn y Cymru Premier doedd hynny ddim i fod. Y penderfyniad gan y Gymdeithas Bêl-droed oedd y byddai pob clwb yn aros lle maen nhw, fyddai neb yn mynd i lawr nac i fyny i'r haen gyntaf.

Oherwydd hynny mae'r Dinasyddion yn dal yn y JD Cymru North. Mi fydd y gemau yn dechrau ym mis Gorffennaf eleni – ar y pedwerydd ar hugain. Wythnos cyn hynny y bydd gemau Cwpan Nathaniel – cwpan y gynghrair – wedi rhoi cychwyn arni: 17 Gorffennaf fydd hynny. Mae gobaith y bydd Cwpan Cymru yn dilyn hefyd.

Mae'n rhyw fath o newyddion da i'r clwb sydd wedi bod yn ysu am gael dechrau chwarae gemau cystadleuol go iawn ers misoedd. Roeddan nhw wedi paratoi'n dda gan ennill naw o'u gemau cyfeillgar yn olynol. Ganol Mawrth y daeth y newydd trist iddyn nhw fod y tymor diwethaf wedi dod i ben.

Y gred ydi fod y chwaraewyr tramor wedi mynd yn ôl i'w gwledydd wedi deall hyn. Ar ddechrau'r tymor newydd mi fydd ambell chwaraewr lleol yn cael gêm o bosib. Y golwr Shane Owen yw un sydd wedi ymuno yn weddol ddiweddar. Chwarae efo Ogwen Tigers yn ei gêm gyntaf yr oedd o pan gollon nhw 4-1 yn erbyn Bangor 1876 yng Nghynghrair Gwynedd. Ond mi wnaeth yn ddigon da i dynnu sylw er mai 16 oed oedd o ar y pryd yn nhymor 2019/2020.

Gan i'r diwedd ddod i Ogwen Tigers wedi hynny mi ymunodd â Llangoed. Ymhen ychydig wythnosau roedd wedi ei fachu gan Fangor. Dan eu hadain nhw mae wedi bod ers hynny. Mae ganddo eiriau caredig iawn am Hugo Colace, y rheolwr a hyfforddwr y golwyr, Christian Minardi. Fo sydd wedi trawsnewid ei ddull o chwarae yn y gôl, meddai wrth wefan pêl-droed Ynys Môn. Ac mae'r rheolwr yn uchel iawn yn ei olwg, yn cael y gorau ohono.

Mae Shane yn gobeithio y bydd yn cael ychydig o gemau i'r tîm cyntaf unwaith y bydd y tymor yn dechrau. Ac efallai y bydd Ryan Evans, un lleol arall yn medru ymuno â fo. A phwy a ŵyr pwy ddaw yn ôl o'r gwledydd tramor?

Ar hyn o bryd mae gwahoddiad i rai dan 19 oed gael prawf gyda'r clwb. Does dim manylion eto ond mae Hugo Colace wedi dweud wrthyn nhw am gadw golwg ar y cyfyngau cymdeithasol am y dyddiad.



*Shane Owen, un o'r chwaraewyr ifanc sy'n gobeithio cael gemau o fis Gorffennaf ymlaen*

**Ateb POS CŴN: Gwelais 9 ci.**

# DATHLU 40 MLYNEDD GORIAD

DATHLU'R 40

## HYDREF 1980 – HYDREF 2020



Claire Stimson a Simon Moodley yn cynrychioli Ysgol Cae Top a enillodd y darian i ysgolion dros 100 o blant ym mabolgampau Bangor/Bethesda yn 1989. Alwyn E Jones, pennaeth Ysgol Llandygai oedd yn ei chyflwyno

Gareth Roberts gyda Ffion Lewis a Nerys Lewis mewn noson Pei a Phicl yny Ganolfan Gymdeithasol yn y Garth. Codi arian at Barnardo's oedd y nôd yn 1992



Bethany Elliott a Sarah de Lewandowics o Ysgol Friars a fu'n cymryd rhan yn y Gerddorfa Chwyth Genedlaethol i Ieuenctid dros wyliau'r Pasg yn 2006



Triawd y Coleg, Cledwyn, Mered a Robin gyda'i gilydd am y tro olaf mewn cyngerdd yn Neuadd Pritchard Jones yn y nawdegau

